



Adolygiad Gwella Ansawdd o Brifysgol Caerdydd

Yr Adroddiad Technegol

Mawrth 2020

Cynnwys

Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd	1
Yr adolygiad yma	1
Yr adroddiad yma.....	1
Y beirniadaethau trosfwaol am Brifysgol Caerdydd.....	2
1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad	3
2 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr.....	7
3 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu.....	16
4 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd	20
5 Darpariaeth gydweithredol	27

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr [Adolygiad Gwella Ansawdd](#) ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.¹ Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch \(QAA\)](#).²

Yr adolygiad yma

Dyma Adroddiad Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Caerdydd. Cafwyd yr adolygiad mewn dau gam, fel a ganlyn: yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm ar 4 Chwefror 2020 a'r Ymweliad Adolygu rhwng 2 a 5 Mawrth 2020. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o bum adolygwr:

- Yr Athro John Baldock
- Mrs Claire Blanchard
- Ms Hayley Burns
- Dr Neil Lucas
- Mrs Sala Khulumula (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Cyn yr ymweliadau adolygu, cyflwynodd y darparwr ddogfen hunanwerthuso (y Dadansoddiad Hunanwerthuso), Adroddiad Newidiadau, a Phecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw, sy'n cynnwys ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academaidd ac ansawdd.

Yr adroddiad yma

Yn yr adroddiad hwn, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (2015) (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Gallwch weld y beirniadaethau ar dudalen 2, ac mae canfyddiadau manwl yr adolygiad yn dilyn y rheiny mewn paragraffau wedi'u rhifo.

Mae Adroddiad Technegol yn nodi barn tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd o dan bob un o benawdau'r adroddiad. Mae Adroddiad Canlyniadau byrrach yn nodi prif ganfyddiadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd i gynulleidfa ehangach. Mae'r [Adroddiad Canlyniadau](#) ar gyfer yr adolygiad hwn ar gael ar wefan QAA.³

Mae Adroddiadau Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd wedi'u bwriadu'n bennaf i'r darparwyr dan sylw, ac i ddarparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws ystod o ddarparwyr.

¹ Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.

² Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.

³ Yr Adroddiad Canlyniadau: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Caerdydd

Y beirniadaethau trosfwaol am Brifysgol Caerdydd

Mae Prifysgol Caerdydd yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.

Mae Prifysgol Caerdydd yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

1.1 Gwybodaeth gryno am y darparwr, sy'n cynnwys fframwaith strategol, strwythur cyfundrefnol

1 Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd yn 1883, ac roedd yn un o sefydliadau sefydlol Prifysgol Cymru yn 1893. Yn dilyn uno Prifysgol Cymru, Caerdydd a Phrifysgol Cymru, Coleg Meddygaeth yn 2004, caniatwyd statws prifysgol a'r teitl 'Prifysgol Caerdydd' drwy Siarter Atodol. Drwy hyn, sefydlwyd y Brifysgol yn ffurfiol fel prifysgol yn ei rhinwedd ei hun sy'n gwbl annibynnol i Brifysgol Cymru. Mae'r Brifysgol wedi bod yn aelod o'r Grŵp Russell o brifysgolion ers 1998.

2 Gweledigaeth y Brifysgol yw bod yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd, sy'n rhagorol o ran ei hymchwil ac yn ardderchog o ran ei haddysgu, wedi'i gyrru gan greadigrwydd a chwilfrydedd, ac sy'n cyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, Cymru, y Deyrnas Unedig a'r byd. Drwy gyflawni'r weledigaeth hon, mae'r Brifysgol yn disgwyl gwella ei statws fel un o'r 20 o brifysgolion gorau yn y Deyrnas Unedig ac un o'r 100 gorau yn y byd. Mae'r Brifysgol wedi nodi ei chyfeiriad strategol yn ei dogfen strategaeth *Y Ffordd Ymlaen 2018-2023* sy'n canolbwyntio ar bum maes: addysg a myfyrwyr, ymchwil, arloesedd, rhyngwladol, a chenhadaeth ddinesig. Mae gan bob un o'r meysydd ei is-strategaeth ei hun.

3 Mae gan y Brifysgol 24 o ysgolion sydd wedi'u trefnu'n dri choleg. Mae'r strwythur hwn wedi bod yn ei le ers 2012. Arweinir pob coleg gan Ddirprwy Is-Ganghellor. Mae'r Brifysgol yn cynnig ystod eang o feysydd astudio academaidd sy'n ymestyn ar draws y dyniaethau; y gwyddorau naturiol, ffisegol a chymdeithasol a gwyddorau iechyd a bywyd; a pheirianneg a thechnoleg. Mae nifer fawr o'i rhaglenni wedi derbyn achrediad gan gyrrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio.

4 Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am ei chyfeiriad strategol a'r oruchwyliaeth arni. Mae Bwrdd Gweithredol y Brifysgol, dan gadeiryddiaeth yr Is-Ganghellor, yn arwain ar y gwaith o reoli'r sefydliad. Mae aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys: y Prif Swyddog Gweithredu; y Rhag Is-Ganghellor; y Dirprwy Is-Ganghellor Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academaidd; y Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter; a Dirprwy Is-Ganghellorion y Colegau. Dirprwyir agweddau allweddol o'r cyfrifoldeb am sicrhau safonau academaidd, rheoli ansawdd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr o'r Senedd i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd. Mae gan bob coleg gorff sy'n cynghori Dirprwy Is-Ganghellor y Coleg, a gelwir hwn yn Fwrdd y Coleg. Mae Penaethiaid yr Ysgolion yn gyfrifol am sicrhau ansawdd academaidd, datblygu'r dysgu a'r addysgu, a gwella ansawdd. Mae Penaethiaid yr Ysgolion yn atebol i Ddirprwy Is-Ganghellorion y Colegau. Yn rhan o strwythur pwyllgorau'r ysgolion mae Bwrdd yr Ysgol, Byrddau Astudiaethau a Phanelau Myfyrwyr-Staff.

1.2 Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau

5 Yn ystod blwyddyn academaidd 2018-19, roedd 33,190 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru yn y Brifysgol, ac roedd 23,961 ohonynt yn fyfyrwyr israddedig a 9,229 yn ôl-raddedig (7,348 o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir ac 1,881 o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig). Rhwng blynyddoedd academaidd 2014-15 a 2017-18, cynyddodd nifer y myfyrwyr o bron i 5%.

6 Mae gan y Brifysgol gorff myfyrwyr amrywiol, gydag oddeutu 10% o'i myfyrwyr yn hunaniaethu'n bobl dduon, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig (BAME), a 10% o'i myfyrwyr yn datgan anabledau. Yn ystod blwyddyn academaidd 2018-19, roedd 18.8% o'i myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf / Mynegai Amddifadedd Lluosog

Cymru ac roedd 24% o'i myfyrwyr sy'n byw yn y DU o ardaloedd o gyfranogaeth isel. Mae gan y Brifysgol ymrwymiad cryf i ehangu mynediad ac mae'n un o brifysgolion mwyaf llwyddiannus y Grŵp Russell o ran denu myfyrwyr o ardaloedd o gyfranogaeth isel o bob cwr o'r DU sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol yn draddodiadol.

7 Ar gyfer blwyddyn academiaidd 2016-17, y gyfran o'i myfyrwyr sydd heb barhau ar ôl y flwyddyn fynediad yw 4.2% ac mae hynny'n is na'r meincnod o 4.7%. Mae'r cyfraddau cadwraeth a'r cyfraddau cwblhau modiwlau yn uchel, gyda'r Brifysgol yn perfformio'n well na'r canlyniad strategol targed sydd yn ei Chynllun Ffioedd a Mynediad. Mae'r gyfran o'i myfyrwyr sy'n ennill graddau anrhydedd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch wedi parhau'n is na'r canolrif ar gyfer y sector yn y tair blynedd ddiwethaf hyd at 2018. Mae'r gyfran o'i myfyrwyr sy'n ennill gradd dda wedi cynyddu o 77% yn 2016 i 83% yn 2019.

1.3 Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

8 Yn ei Dadansoddiad Hunanwerthuso, mae'r Brifysgol yn disgrifio ei gwaith i ehangu mynediad a chynhwysiad ymhellach drwy ei gwaith allgymorth gydag ysgolion. Yn Adran 2 yr adroddiad hwn cyfeirir at rai o'r mentrau penodol a wneir gan y Brifysgol i ehangu mynediad i addysg uwch a datblygu sgiliau academiaidd y myfyrwyr i'w paratoi nhw ar gyfer astudio mewn prifysgol. Yn ogystal, mae'r Brifysgol yn cynyddu'r cyfleoedd i fyfyrwyr wneud rhan o'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Brifysgol wedi datblygu cynllun strategol newydd i wella darpariaeth gyfrwng Cymraeg ar draws y sefydliad.

9 Mae'r Brifysgol yn ymateb yn weithredol i'r agenda sgiliau cenedlaethol a rhyngwladol ac yn rhoi sgiliau a phrofiad i'r myfyrwyr ar gyfer cyflogaeth raddedig. Yn ogystal â datblygu rhaglenni newydd mewn ymateb i anghenion byd diwydiant, mae'r Brifysgol wedi dechrau darparu ei phrentisiaeth gradd gyntaf mewn Peirianeg Meddalwedd Gymhwysol - sef un o'r tri maes blaenoriaeth genedlaethol i Gymru.

10 Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r egwyddorion datblygu cynaliadwy sydd wedi'u nodi yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, ac mae wedi'i hymrwymo ei hun i ddod yn 'brifysgol gynaliadwy' yn ei chynllun strategol *Y Ffordd Ymlaen 2018-2023* gyda'r nod o fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda phrifysgolion eraill yng Nghymru drwy Grŵp Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Addysg Uwch Cymru i rannu arferion gorau. Mae'r Brifysgol yn cefnogi ei nod strategol drwy benodi Deon dros Gynaliadwyedd Amgylcheddol.

1.4 Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad

11 Cafodd gwaith y Brifysgol o baratoi ar gyfer yr adolygiad ei oruchwylio gan Grŵp Llywio Adolygiad Gwella Ansawdd, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academiaidd. Roedd aelodau'r Grŵp yn cynnwys y Cofrestrwydd Academiaidd, Pennaeth y Gofrestrfa a Llywydd Undeb y Myfyrwyr.

12 Yn ogystal â rhoi gwybodaeth i bwyllgorau allweddol a chyrrff llywodraethu'r Brifysgol (ei Bwrdd Gweithredol, ei Phwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd, ei Senedd, a'i Chyngor), cynhaliwyd cyfarfodydd gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ar draws y brifysgol. Rhannwyd fersiynau drafft o ddogfennau hefyd, at ddibenion cynghori ac ymgynghori, gydag amrywiaeth o staff o'r gwasanaethau academiaidd a phroffesiynol a fu'n cyfranogi hefyd yn y gwaith o ddrafftio deunyddiau.

13 Mae'r Brifysgol wedi cynnwys ei myfyrwyr yn ei gwaith o baratoi ar gyfer yr adolygiad drwy wneud Llywydd Undeb y Myfyrwyr a Phennaeth Llais Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr yn aelodau o'r Grŵp Llywio Adolygiad Gwella Ansawdd. Mae'r Brifysgol wedi rhannu fersiynau drafft o ddogfennau gydag Undeb y Myfyrwyr i gyfnewid gwybodaeth a sylwadau, ac mae hefyd wedi cynnal cyfarfodydd i roi gwybodaeth am gynnwys ei Dadansoddiad Hunanwerthuso ac i helpu i baratoi cyflwyniad y myfyrwyr. Mae'r Brifysgol wedi darparu adnoddau i gefnogi Undeb y Myfyrwyr i gynnal ei broses adolygu ei hun ac i baratoi ei gyflwyniad. Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a'r Senedd ar y broses o adolygu a llofnodi'r dogfennau ar gyfer yr adolygiad felly bydd aelodau sy'n fyfyrwyr wedi cyfrannu at y broses hon.

1.5 Crynodeb byr o natur a rhesymeg y meysydd penodol y dylai'r adolygiad a'r hunanwerthusiad ganolbwyntio arnynt

14 Gofynnodd y Brifysgol i'r tîm adolygu ystyried pedwar maes i ganolbwyntio arnynt: lleoliadau gwaith a chyflogadwyedd; symudedd a phrofiad rhyngwladol y myfyrwyr; partneriaeth â myfyrwyr a chefnogaeth i fyfyrwyr; a llais y myfyrwyr. Dewiswyd y meysydd hyn i adlewyrchu meysydd i'w gwella sydd ar wahanol gamau yn eu haeddfedrwydd.

15 Mae gan y Brifysgol yr uchelgais i gynnig cyfleoedd i'w myfyrwyr i gyd i ymgymryd â lleoliadau gwaith neu weithgareddau sy'n cynnwys cyflogaeth er mwyn cyfoethogi eu profiad a'u cefnogi nhw i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Ar hyn o bryd, mae 43% o fyfyrwyr y Brifysgol wedi gwneud lleoliadau gwaith, ac uchelgais y Brifysgol yw sicrhau bod o leiaf 50% o'i myfyrwyr israddedig yn ymgymryd â lleoliad gwaith yn ystod eu hamser yn y Brifysgol.

16 Mae symudedd a phrofiad rhyngwladol y myfyrwyr yn faes i ganolbwyntio arno sy'n adlewyrchu maes datblygedig o'r strategaeth sefydliadol. Roedd ymrwymiad i hybu symudedd rhyngwladol y myfyrwyr a lansiad y Ganolfan Cyfleoedd Byd-eang yn nodweddion allweddol o strategaeth flaenorol y Brifysgol. Mae profiad rhyngwladol yn parhau'n un o brif ddangosyddion y strategaeth gyfredol - *Y Ffordd Ymlaen 2018-2023*. Mae'r Brifysgol yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni targed i sicrhau bod o leiaf 30% o'i myfyrwyr israddedig yn treulio o leiaf tair wythnos yn gweithio, astudio neu wirfoddoli dramor.

17 Ym marn y Brifysgol mae ei dulliau o weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr wedi'u sefydlu'n dda ac yn faes lle gwelwyd cryfder. Dewisodd y Brifysgol bartneriaeth â myfyrwyr a chefnogaeth i fyfyrwyr fel maes i ganolbwyntio arno er mwyn adolygu agweddau sy'n gwneud hon yn berthynas lwyddiannus ac i ystyried sut y gallai gael ei gryfhau ymhellach i gefnogi gwelliant ym maes dysgu ac addysgu, ac i ddarparu rhagor o gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â'r staff.

18 Mewn perthynas â'r pedwerydd maes i ganolbwyntio arno, llais y myfyrwyr, mae'r Brifysgol yn nodi hyn: er bod ganddi system o gynrychiolaeth academaidd sydd wedi'i sefydlu'n dda, mae'r Brifysgol wedi bod yn siomedig gyda sgorau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf er eu bod wedi parhau o fewn y meincnod. Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi cymryd nifer o gamau gweithredu i wella ei dulliau - er enghraifft, y Fframwaith Rheoli Arolygon newydd a phenodi Swyddog Ymgyrchoedd Myfyrwyr - ac mae eisiau canolbwyntio ymhellach ar y maes hwn.

1.6 Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol

19 Yn yr adolygiad blaenorol gan QAA yn 2014, rhoddwyd tri argymhelliad ac un cadarnhad.

20 Roedd yr argymhelliad cyntaf yn ymwneud â chynlluniau mewn un o'r rhaglenni i wneud defnydd o fodiwlau ar lefelau 5, 6 a 7 yn y blynyddoedd astudio sy'n cyfateb fel arfer â lefelau academiaidd 4, 5 a 6. Cafodd hyn ei fonitro drwy'r broses adolygu flynyddol, ac ni welwyd unrhyw ganlyniadau nas bwriadwyd. Roedd yr ail argymhelliad yn ymwneud â gwallau oedd wedi digwydd wrth gynhyrchu canlyniadau i fyfyrwyr meddygol oedd yn eu blwyddyn derfynol. Gofynnwyd i'r Brifysgol fonitro'r broses o gyflwyno system newydd ar gyfer cofnodi ac adrodd canlyniadau er mwyn sicrhau na fyddai gwallau'n digwydd eto. Cafodd hyn ei gyflawni. Roedd y trydydd argymhelliad yn gofyn bod y Brifysgol yn sicrhau gweithrediad cynhwysfawr y Fframwaith Materion Asesu ar draws y ddarpariaeth i gyd o ddechrau blwyddyn academiaidd 2015-16. Cafodd y Fframwaith Materion Asesu, oedd yn cynnwys cyflwyno nifer gyfyngedig o ddulliau cyson o ddosbarthu graddau, ei weithredu'n llwyddiannus. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd, ac yna i'r Senedd.

21 Roedd y cadarnhad yn cefnogi penderfyniad y Brifysgol i gynhyrchu adolygiad blynyddol o welliant o 2014-15 ymlaen. Cafodd hyn ei gwblhau ac, yn dilyn hynny, cafodd adroddiad a gynhyrchwyd am welliant ei gynnwys yn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol.

2 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

2.1 Y dull strategol o wella profiad y myfyrwyr

22 Yr Is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr yw'r brif ddogfen strategol sy'n ymdrin â'r dull strategol o wella profiad y myfyrwyr. Mae hon wedi'i thanategu gan y strategaeth sefydliadol - *Y Ffordd Ymlaen 2018-2023*. Mae'r is-strategaeth wedi'i threfnu'n chwe maes allweddol: darparu addysg ysbrydoledig; cefnogi bywyd myfyrwyr; gwerthfawrogi ein myfyrwyr; cynllunio ar gyfer dyfodol byd-eang; gwella'r amgylchedd dysgu; a hybu rhagoriaeth addysgu. Mae'r is-strategaeth yn nodi y bydd cynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu i sicrhau bod ei hymrwymiaidau'n cael eu cyflawni, ac mae tystiolaeth i ddangos hynny yng nghynllun darparu'r Is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr. Mae'r dull strategol o wella'r dysgu, yr addysgu a phrofiad y myfyrwyr wedi'i gefnogi ymhellach gan y Ganolfan Arloesedd a Chefnogaeth Addysg sydd â goruchwyliaeth strategol dros yr arolygon myfyrwyr a'r prosesau gwerthuso modiwlau yn y Brifysgol.

23 Mae Bwrdd Gweithredol y Brifysgol yn gyfrifol am weithredu strategaeth y Brifysgol, ac mae'n adrodd i'r Senedd a'r Cyngor sydd ag aelodau sy'n fyfyrwyr yn gyfranogwyr llawn ynddynt; a'r Dirprwy Is-Ganghellor Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academaidd yw'r aelod sy'n atebol am faterion yn ymwneud â phrofiad y myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn nodi bod ei dull strategol yn cael ei weithredu drwy'r broses o Adolygu a Gwella'n Flynyddol (AGF) a'r broses Adolygiad Cyfnodol; llunnir eu hadroddiadau i hysbysu prosesau cynllunio strategol i sicrhau gwelliant ar lefelau'r ysgolion a'r rhaglenni drwy ddatblygu Cynlluniau Gwella Profiad Myfyrwyr pwrpasol mewn da bryd. Hysbyswyd y tîm adolygu bod Pwyllgor Gweithredol Undeb y Myfyrwyr yn dethol myfyrwyr o bob coleg i eistedd ar y panelau AGF.

24 Mae gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd awdurdod dirprwyedig gan y Senedd dros agweddau allweddol o brofiad dysgu'r myfyrwyr, ac mae'n monitro'r prosesau ac yn gwneud penderfyniadau sydd wedyn yn cael eu hadrodd i'r Senedd. Cadarnhaodd y tîm adolygu fod y Cynlluniau Gwella Profiad Myfyrwyr yn effeithiol ar lefel yr ysgolion, ac mai rôl y Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr wedyn yw canolbwyntio ar brofiadau ehangach y myfyrwyr. Mae pob cam gweithredu a gymerir yn unol â'r Cynlluniau Gwella Profiad Myfyrwyr yn cael eu holrhain a'u mapio yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol sydd yn y strategaeth. Am fod y Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr yn eistedd fel corff cynghori o fewn strwythur pwyllgorau cyfan y Brifysgol, roedd y tîm yn ystyried y byddai'r Brifysgol efallai, er mwyn elwa'n llawnach o'r camau gweithredu a gymerir ar lefel yr ysgolion drwy'r Cynlluniau Gwella Profiad Myfyrwyr, eisiau ystyried dull mwy cydgyngorol ag iddo fwy o strwythur wrth edrych ar ffyrdd o wella profiad y myfyrwyr.

25 Archwiliodd y tîm adolygu sut yr oedd y myfyrwyr wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r is-strategaeth. Mae'r myfyrwyr sy'n aelodau o Undeb y Myfyrwyr yn ymwybodol o'r ffordd y mae cyflwyniad y myfyrwyr yn cyfrannu at strategaethau'r Brifysgol ar gyfer gwella profiad y myfyrwyr, ac mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn aelod o'r Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr lle trafodir yr Is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr. Er nad oedd y myfyrwyr oedd yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd gyda'r tîm yn ymwybodol ar y cyfan o'r ffordd yr oedd yr is-strategaeth wedi cael ei datblygu, canfu'r tîm dystiolaeth i ddangos bod yr is-strategaeth wedi'i chreu gyda chyfranogaeth staff, myfyrwyr a Chyngor y Brifysgol.

2.2 Y dull o weithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr

26 Mae dull y Brifysgol o weithio mewn partneriaeth â'i myfyrwyr wedi'i ddisgrifio yn is-strategaeth y Brifysgol. Mae Siarter y Myfyrwyr, Cyflwyniad Ysgrifenedig y Myfyrwyr blynyddol a'r Cytundeb Perthynas ag Undeb y Myfyrwyr yn tanategu'r cyd-ymrwymiad rhwng y Brifysgol a'i myfyrwyr i weithio mewn partneriaeth. Cyflwyniad Ysgrifenedig y Myfyrwyr yw'r

gyrrwr allweddol ar gyfer y prosiectau partneriaeth rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol, ac mae'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth i hwn yn flynyddol.

27 Mae gan y Brifysgol system aeddfed o gynrychiolaeth myfyrwyr sydd wedi ymwreiddio drwyddi draw gydag oddeutu 1,000 o swyddi i gynrychiolwyr myfyrwyr bob blwyddyn sy'n cynnwys cynrychiolwyr y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Cânt eu rheoli a'u cynnal mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr gyda chylch blynyddol o hyfforddiant dan arweiniad Undeb y Myfyrwyr mewn partneriaeth â'r Brifysgol, a chynhadledd hyfforddi flynyddol i gynrychiolwyr y myfyrwyr. Mae cynrychiolwyr y myfyrwyr yn eistedd ar y Cyngor a'r Senedd, sy'n rhan o'r strwythurau ffurfiol ar lefelau strategol, a chânt eu cynrychioli ar bwyllgorau ar bob lefel o fewn y Brifysgol gan gynnwys grwpiau cynghori a gweithgorau. Mae aelodau sy'n fyfyrwyr hefyd ar bwyllgorau sy'n ymwneud â'r gwasanaethau proffesiynol a'r ystadau. Mae myfyrwyr wedi'u cynrychioli ar banelau sy'n ymdrin â chwynion, apeliadau academaidd a materion disgyblu ac 'addas i weithio'. Roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw'n nodi'r amrywiaeth o fewn system gynrychiolaeth y myfyrwyr ac yn deall eu rôl fel cynrychiolwyr y myfyrwyr er nad oedd gan rai myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ddealltwriaeth mor eglur.

28 Cesglir data sy'n dangos llais y myfyrwyr o wahanol ffynonellau, megis 'Wythnos Siarad', Panelau Myfyrwyr-Staff, fforymau'r colegau dan gadeiryddiaeth Deoniaid Astudiaethau Israddedig ac Ôl-raddedig y colegau, a gwerthusiadau o fodiwlau. Cesglir y data hwn drwy'r Fframwaith Rheoli Arolygon a reolir gan y Ganolfan Arloesedd a Chefnogaeth Addysg sy'n helpu gyda'r gwaith o lunio cynlluniau gweithredu. Soniodd y myfyrwyr bod Panelau Myfyrwyr-Staff yn ddefnyddiol i ymdrin â phroblemau ar lefel ysgol ond doedden nhw ddim yn teimlo bod y rhain yn ymdrin yn ddigonol â phroblemau ehangach ledled y coleg a'r brifysgol. Roedd y myfyrwyr a'r staff yn ystyried bod adborth canol modiwl yn fwy buddiol nag adborth diwedd modiwl am eu bod yn gallu gweld y newidiadau yn ystod yr un flwyddyn academaidd.

29 Nododd y tîm bod gan y Brifysgol bartneriaeth dda ag Undeb y Myfyrwyr ac roedd y myfyrwyr yn gwerthfawrogi mor ymatebol oedd Undeb y Myfyrwyr o ran rhoi adborth iddynt am ymatebion y Brifysgol. Roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n effeithiol ar bwyllgorau, ac yr ymdrinnir yn effeithiol â llais y myfyrwr ar lefel y colegau. Fodd bynnag, am fod cynifer o lefelau o fewn y broses (ysgol, coleg a phrifysgol), teimlai'r myfyrwyr nad oedd cyfathrebu a'r adborth yn arbennig o effeithiol bob amser, gan gynnwys yr effaith bositif yr oedd y Brifysgol yn ei chael ar eu profiad, a gallai'r Brifysgol fod yn fwy gweithredol mewn ceisio adborth a chau'r ddolen adborth. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'r heriau hyn, ac o'r argymhellion a godwyd gan gyflwyniad y myfyrwyr i'r Adolygiad GA hwn, ac mae ganddi gynllun gweithredu yn ei le i godi proffil llais y myfyrwyr ac i gryfhau cyfathrebiad a negeseua ar bob lefel yn y Brifysgol.

2.3 Cydnabod ac ymateb i'r amrywiaeth ym mhoblogaeth y myfyrwyr, gan gynnwys dulliau o ehangu mynediad, anghenion grwpiau penodol o fyfyrwyr, ac ystyried y dull astudio, lefel yr astudio a'r lleoliad astudio

30 Mae'r Cynlluniau Mynediad a Ffioedd blynyddol yn disgrifio dull y Brifysgol o ehangu mynediad sy'n cyfateb â'i chynllun strategol cyffredinol a'i Chynllun Cydraddoldeb Strategol. Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn y broses o adnewyddu ei strategaeth ehangu cyfranogaeth a fydd yn cael ei defnyddio o flwyddyn academaidd 2020-21 ymlaen; mae'n nodi manylion pellach sefydlu rhwydwaith ehangu cyfranogaeth a fydd yn cynnwys academyddion, staff proffesiynol a myfyrwyr. Tynnir aelodau'r rhwydwaith ehangu cyfranogaeth, a sefydlwyd yn 2019, o ysgolion academaidd ac adrannau proffesiynol, ac mae'n defnyddio dull strategol cyfunol o gefnogi myfyrwyr ehangu cyfranogaeth ar eu taith ddysgu. Mae gan y Brifysgol bolisi derbyn cyd-destunol hefyd sydd wedi bod yn ei le ers amser, ac mae wedi cyflwyno Polisi Derbyn newydd ar gyfer cylchred 2019-20.

31 Mae'r Brifysgol yn recriwtio nifer sylweddol o fyfyrwyr ehangu cyfranogaeth, ac mae'r gostyngiad yn nhariff mynediad UCAS o 172 yn 2011 i 139 yn 2019 wedi annog y Brifysgol i roi adnoddau gwahaniaethol yn eu lle i gefnogi myfyrwyr ehangu cyfranogaeth ar eu taith ddysgu. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau megis: cynllun cefnogi ymadawyr gofal i bobl sy'n gadael gofal a myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu rhieni; 'Camu i Fyny' - sef rhaglen academaidd ddwy flynedd i fyfyrwyr coleg a myfyrwyr chweched dosbarth; rhaglen 'Dyfodol Hyderus' a 'Prosiect Darganfod' i ymadawyr gofal a phobl ifanc sydd ag anhwylderau sbectrwm awtistiaeth; 'Byw'n Lleol, Dysgu'n Lleol' i ddysgwyr sy'n oedolion; Rhaglen Ysgolheigion gyda'r 'Brilliant Club' i ymchwilwyr doethurol ac ôl-ddoethurol sy'n gweithio gyda disgyblion mewn ysgolion â blaenoriaeth mewn ardaloedd MALIC40; rhaglenni 'Llwybr at Radd' i oedolion sy'n dychwelyd i addysg. Mae'r gwasanaethau cymorth myfyrwyr a'r gwasanaethau lles yn allweddol i ymateb i anghenion poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr y Brifysgol.

32 Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd, megis metrigau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr (FfRhA), yn dangos bod cyrchfannau graddedigion y myfyrwyr hynny sydd o gefndiroedd difreintiedig cystal â'r rheiny o gefndiroedd breintiedig; ond, o'u cymharu, roedd gan y myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig werthfawrogiad is o'u profiadau academaidd. Mae'r Brifysgol wedi ymateb drwy wneud adolygiad o flwyddyn i flwyddyn o brofiad y myfyrwyr gyda ffocws ar fyfyrwyr o gefndiroedd ehangu cyfranogaeth, a thrwy gyflwyno mentrau allweddol megis y rhaglen 'Bywyd Preswyl' a pholisïau ymyrryd eraill. Ym mlwyddyn academaidd 2018-19, cyflwynodd y Brifysgol Grŵp Llywio Graddedigion i ddisgrifio sgiliau a galluoedd lle mae nodweddion yn cael eu harddangos drwy weithgareddau allgwricwlaidd, yn ogystal â rhaglenni academaidd.

33 Mae'r gwasanaethau cymorth myfyrwyr a'r gwasanaethau lles yn cynnal dosbarthiadau mewn pynciau megis sgiliau ysgrifennu, i helpu myfyrwyr i wella eu sgiliau astudio. Mae'r cymorth cynyddol yn y Saesneg ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol wedi peri ehangiad yn y cwricwlwm Blwyddyn 1 sydd o fudd i'r myfyrwyr i gyd. Ymysg y platfformau ar-lein eraill sy'n canolbwyntio ar ehangu cyfranogaeth, mae'r pecyn integredig 'Ally' sy'n helpu i ganfod problemau y mae myfyrwyr yn eu cael gyda'u modiwlau.

34 Yn 2018, roedd y Brifysgol yn dangos bwlch o 10% yng nghyrhaeddiad ei myfyrwyr BAME, ond mae hyn yn cyfateb â chyfartaledd y sector. Mynegodd Cyflwyniad Ysgrifenedig y Myfyrwyr ym mlwyddyn academaidd 2019-20 bryderon yn ymwneud â phoblogaeth y myfyrwyr BAME mewn perthynas â gwneud cwynion, amrywiaeth y sail staffio, a'r cwricwlwm ac iechyd meddwl. Atseiniwyd hyn gan y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â nhw a ddywedodd, er eu bod yn teimlo bod amrywiaeth o fewn y corff myfyrwyr, nad yw hynny wedi'i adlewyrchu yn y proffil staff. Yn 2018, sefydlodd y Brifysgol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bwlch Cyrhaeddiad BAME i ymdrin â hyn. Mae'r grŵp hwn yn gydweithrediad rhwng Undeb y Myfyrwyr a staff uwch y Brifysgol, ac mae'n adrodd i'r Bwrdd Ymgynghorol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a'r Grŵp Llywio Cydraddoldeb Hiliol. Canfu'r Grŵp wahaniaethau mewn meysydd o gyrhaeddiad rhwng y myfyrwyr BAME yn y gwahanol ysgolion, lefelau isel o staffio BAME a gwahaniaethau yng nghyrhaeddiad y myfyrwyr o'r DU a'r myfyrwyr rhyngwladol. Mae'r Grŵp yn bwriadu rhoi camau gweithredu ar waith i ymdrin â'r materion hyn gyda chyfraniad gan fyfyrwyr BAME yn ganolbwynt i'w cynlluniau.

35 Roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm arolygu â nhw'n teimlo bod y Brifysgol yn rhagweithiol o ran adnabod ac ymateb i anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr a bod y gefnogaeth honno'n brydlon ac yn digwydd ar unwaith. Dywedodd aelodau o'r staff bod yr holl wasanaethau cymorth myfyrwyr sydd ar waith yn agored i'r myfyrwyr ehangu cyfranogaeth hefyd ac roeddent yn esbonio sut mae'r mentora gan gymheiriaid wedi bod ar ei fwyaf effeithiol ar gyfer y myfyrwyr ehangu cyfranogaeth. Ar y cyfan, mae gan y Brifysgol ystod eang o fentrau cymorth ar waith i wella profiad dysgu cyffredinol poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr.

2.4 Profiad y myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a'r myfyrwyr ymchwil

36 Mae'r strategaeth sefydliadol *Y Ffordd Ymlaen 2018-2023* yn tanategu'r dull o wella profiad y myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Mae darpariaeth ôl-raddedig wedi'i chynnwys yn y prosesau AGF blynyddol a chyfnodol o adolygu portffolios rhaglenni, profiad y myfyrwyr a gweithgareddau gwella.

37 Mae gan bob un o'r tri choleg Ddeon Astudiaethau Ôl-raddedig y mae eu rolau'n cynnwys goruchwyllo cylchoedd adolygu blynyddol a chyfnodol; aelodaeth o'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a'r Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr; darparu arweiniad mewn perthynas â gweithgareddau i wella profiad y myfyrwyr ôl-raddedig; a gweithio'n agos gydag un o swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr, ei Is-lywydd dros Fyfywyr Ôl-raddedig. Mae'r Is-lywydd dros Fyfywyr Ôl-raddedig yn aelod llawn o'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a'r Senedd, ac mae'n cael ei gefnogi gan y Swyddog Gweithredol dros Fyfywyr Ôl-raddedig. Mae'r Deoniaid yn cydweithio i dynnu sylw at faterion ymchwil ôl-raddedig drwy gysylltu â'r gwasanaethau ar draws y Brifysgol.

38 Yn 2018, sefydlodd y Brifysgol grŵp cwmpasu ymchwil ôl-raddedig i adolygu'r ddarpariaeth ymchwil ôl-raddedig gyfan drwy'r Brifysgol i gyd gyda chynlluniau gweithredu ar waith mewn pedwar maes: recriwtio a derbyn myfyrwyr; cyllido; diwylliant a phrofiad; a safonau ac ansawdd academaidd. Yn rhan o ddyletswyddau'r grŵp cwmpasu hefyd mae'r dasg o edrych ar wella cefnogaeth yrfaol a chyflogadwyedd i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Gall y myfyrwyr ôl-raddedig hefyd fanteisio ar gyfleoedd byd-eang gydag Erasmus+, sy'n cynnwys hyfforddeiaethau a symudedd credyd rhyngwladol, a gyda phartneriaethau strategol rhyngwladol y Brifysgol.

39 Mae'r myfyrwyr ôl-raddedig yn cymryd rhan yn yr Arolwg Profiad Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir (PTES) a'r Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig (PRES), a chynhwysir eu profiadau yn y broses AGF er mwyn caniatáu i newidiadau gael eu gwneud mewn da bryd ac i'r canlyniadau fod yn weladwy yn ystod yr un flwyddyn academaidd. Cesglir llais y myfyrwyr gan Undeb y Myfyrwyr yn ystod 'Wythnosau Siarad', sydd wedyn yn rhoi adborth mewn adroddiad sy'n benodol berthnasol i faterion ymchwil ôl-raddedig, gyda chamau gweithredu gan y Brifysgol. Dywedodd y myfyrwyr bod prinder cyffredinol o gynrychiolwyr y myfyrwyr ar lefel ôl-raddedig a bod myfyrwyr yn gwirfoddoli ar gyfer y rôl yn hytrach na chael eu hethol. Mae pob Panel Myfyrwyr-Staff a phob fforwm ymchwil ôl-raddedig yn cynnwys cynrychiolydd o blith y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Roedd y myfyrwyr yn llawn canmoliaeth am natur ragweithiol y Deoniaid Astudiaethau Ôl-raddedig ar lefel yr ysgolion ond teimlent nad oeddent yn derbyn gwybodaeth i'r un graddau ar lefel y brifysgol. Er nad oes cynllun mentora swyddogol gan gymheiriaid yn ei le, dywedodd y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig bod ganddynt fentor o faes arbenigol arall. Roedd y myfyrwyr yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu pryderon i'r staff a'u bod yn ystyried y staff yn barod iawn i helpu ac, er mai eu goruchwyliwr yw eu prif gyswilt, y gall y myfyrwyr geisio cymorth gan y Deon Astudiaethau Ôl-raddedig os byddent angen rhagor o fewnbwn gyda'u problem.

40 Yn 2016, lansiodd y Brifysgol yr Academi Ddoethurol gyda ffocws ar hyfforddiant sgiliau ac adeiladu cymuned myfyrwyr. Mae'r Academi'n gweithio'n agos gyda'r timau cyflogadwyedd a lles. Er bod y Brifysgol yn aros am ganlyniadau grŵp cwmpasu cyn penderfynu a ddylai benodi Cyfarwyddwr, mae'r grŵp gweithredu'n darparu goruchwyliaeth dros yr arweinyddiaeth academaidd, gan adrodd i'r Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter, ac mae'r Gofrestrfa'n darparu goruchwyliaeth dros y gwasanaethau proffesiynol. Mae'r Academi Ddoethurol yn siop un alwad ar gyfer pob mater ôl-raddedig, gan ddarparu hyfforddiant a datblygiad wedi'u teilwra'n arbennig i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Cafwyd sylwadau gan y staff a'r myfyrwyr am y ffordd y mae wedi helpu i adeiladu cymuned myfyrwyr ôl-raddedig ac mae wedi darparu cyfleoedd i gydweithio ar draws y disgyblaethau ar gyfer cyllido a digwyddiadau. Mae staff cymorth wedi helpu i lunio rhaglenni addysgu a phrofiadau dysgu cyfunol.

41 Mae timau goruchwyllo yn eu lle i gefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a darperir hyfforddiant rheolaidd i oruchwylwyr newydd a rhai profiadol. Dywedodd y myfyrwyr PhD y cyfarfu'r tîm â nhw eu bod yn derbyn 10 diwrnod o hyfforddiant ar draws y flwyddyn; maen nhw'n fodlon gyda'r oriau cyswllt â goruchwylwyr, bob wythnos, neu'n fisol ar gyfer cytundebau a lofnodir gyda goruchwylwyr ar gydweithrediadau rhyngwladol.

42 Rhoddir cyfle i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig gael profiad addysgu a rhedir y cyrsiau addysgu gan yr Academi Ddoethurol. Darperir cymorth hyfforddi a chyngor i fyfyrwyr hefyd ar sicrhau cydnabyddiaeth gan Advance HE. O'r flwyddyn academaidd nesaf ymlaen, bydd y Brifysgol yn gweithredu polisi newydd ar Ymsefydlu a Hyfforddi Myfyrwyr Ymchwil. Mae myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn addysgu myfyrwyr israddedig blwyddyn gyntaf a chânt ddarlithio am bedair awr y flwyddyn yn eu maes ymchwil hwy, yn ogystal ag arddangos, tiwtora a marcio.

43 Canfu'r tîm fod yr Academi Ddoethurol yn dod â'r holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig at ei gilydd a'i bod wedi creu cymuned sy'n gweithio'n effeithiol ar draws y disgyblaethau. Mae'r Academi hefyd yn darparu cefnogaeth benodol gyda materion ymchwil ôl-raddedig er mwyn gwella profiad dysgu'r myfyrwyr.

2.5 Cefnogi'r myfyrwyr i'w datblygu fel dysgwyr

44 Clywodd y tîm fod y Brifysgol yn darparu ystod o fentrau i gefnogi'r myfyrwyr wrth iddynt ddatblygu fel dysgwyr. Mae'r Brifysgol yn canolbwyntio ar ddarparu addysg ysbrydoledig ynghyd â pharatoi ei myfyrwyr ar gyfer dyfodol byd-eang. Cafodd hyn ei fynegi'n glir yn y cyfarfod gyda'r Is-Ganghellor.

45 Dyrennir tiwtor personol i bob myfyriwr ar ddechrau eu hastudiaethau. Fel arfer, mae'r un tiwtor personol yn aros gyda'r myfyriwr drwy gydol eu hastudiaethau. Mae'r tiwtoriaid personol yn rhoi cyngor ac adborth i'r myfyrwyr a addysgir ar ystod o faterion academaidd a bugeiliol a gallent gyfeirio myfyrwyr at ffynonellau eraill o gymorth os oes angen. Mae'r holl diwtoriaid personol wedi'u hyfforddi yn eu rôl a chânt eu cefnogi gan amrywiaeth o adnoddau sy'n cynnwys esiamplau o arferion gorau ar yr hwb dysgu, llawlyfr a modiwl ar-lein.

46 Gall y myfyrwyr ofyn am diwtor personol sy'n siarad Cymraeg ar yr amod bod aelodau sy'n siarad Cymraeg ar y staff addysgu yn eu maes astudio. Os nad oes aelodau sy'n siarad Cymraeg ar y staff addysgu, gofynnir i aelod priodol o staff o ysgol arall fod yn diwtor ar y myfyriwr. Yn Ysgol y Gymraeg a Dysgu Cymraeg Caerdydd, mae gan bob un o'r myfyrwyr diwtoriaid sy'n siarad Cymraeg.

47 Mae'r Brifysgol yn integreiddio'r ddarpariaeth o sgiliau astudio generig gyda gwasanaethau cymorth a lles eraill i wneud y gwasanaethau'n fwy hygyrch i'r myfyrwyr. Mae'r adnoddau'n cynnwys cymorth gyda'r iaith Saesneg i fyfyrwyr nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, cymorth gyda mathemateg ac ystod o gefnogaeth i fyfyrwyr ôl-raddedig. Mae'r Ganolfan Sgiliau Astudio Academaidd yn cefnogi'r holl fyfyrwyr sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu ac mae'n cydweithio â'r ysgolion, y Llyfrgell a'r gwasanaeth anabled, a gyda darparwyr sgiliau astudio eraill o fewn y Brifysgol, i sicrhau agwedd gydlynol a rennir gan bawb. Mae'r Gwasanaeth Anabled a Dyslecsia'n darparu ystod o gymorth a chyngor i ymgeiswyr anabl ac i aelodau o'r staff sy'n gweithio gyda myfyrwyr sydd ag anabledau. Darperir cyngor a mentora ym maes iechyd meddwl hefyd.

48 Mae'r Brifysgol yn darparu amrywiaeth gynhwysfawr o gymorth astudio i helpu myfyrwyr gyda'u hastudiaethau. Darperir canolfannau cefnogi myfyrwyr sy'n cynnig cyngor cyfrinachol ar ystod eang o faterion. Mae'r Brifysgol yn darparu cymorth gyfaol a chymorth gyda chyflogadwyedd o ddechrau hyd ddiwedd rhaglen y myfyriwr ac hefyd ar ôl graddio. Mae'r Brifysgol yn darparu adnoddau hunangymorth, cymorth cyfoedion gan wirfoddolwyr o blith y myfyrwyr, gweithdai, cyrsiau, sesiynau lles galw heibio, apwyntiadau cwnsela

a chyfeiriadau ar gyfer derbyn rhagor o gymorth arbenigol. Mae'r tîm iechyd galwedigaethol yn darparu cymorth i fyfyrwyr gofal iechyd i'w paratoi ar gyfer eu cyrsiau a'u lleoliadau gwaith.

49 Mae gan Undeb y Myfyrwyr ystod amrywiol a chynhwysol o weithgareddau a gwasanaethau sy'n cyfoethogi bywyd myfyrwyr. Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn cefnogi'r myfyrwyr drwy ei Wasanaeth Datblygu Sgiliau. Mae'r Brifysgol yn gweithio'n agos â chynrychiolwyr y myfyrwyr i sicrhau bod barn y myfyrwyr yn cael ei chlywed. Bob blwyddyn, mae'r Brifysgol yn gofyn i'w myfyrwyr am adborth drwy amrywiaeth o arolygon, gan ddefnyddio'r data a gesglir i wella a mwyhau profiad y myfyrwyr.

50 Mae'r Brifysgol yn gweithredu Cynllun Mentora Myfyrwyr sy'n helpu myfyrwyr newydd gyda'r pontio ac mae cyfle i bob myfyriwr blwyddyn gyntaf gysylltu â mentor myfyriwr o'u hysgol. Gall mentoriaid helpu gydag ymholiadau neu bryderon, p'un a ydynt yn academiaidd ai peidio, gyda phethau fel hyn: cymorth i ymgartrefu ym myd y myfyriwr; darparu cyfleoedd i gwrdd â myfyrwyr eraill sydd ar eu cwrs; sut i roi cyfeiriadau mewn gwaith; sut i gymryd nodiadau; a beth i'w ddisgwyl o'u cwrs, a gweithgareddau'r ysgolion academiaidd ac Undeb y Myfyrwyr. Yn y cyfarfod gyda myfyrwyr, roedd y myfyrwyr yn llawn canmoliaeth am y cynllun ac yn ei werthfawrogi.

51 Mae gan y Brifysgol raglen 'leithoedd i Bawb' sefydledig, sy'n rhoi cyfle i bob myfyriwr ddysgu iaith ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Mae'r myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cynllun yn fawr iawn.

52 Mae'r Brifysgol yn trefnu lleoliadau gwaith ac interniaethau i fyfyrwyr cyfredol a myfyrwyr sydd wedi graddio'n ddiweddar. Mae'r Brifysgol yn gweithio gydag amrywiaeth eang o ddiwydiannau a sectorau i ganfod cyfleoedd profiad gwaith. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys cipolygon di-dâl tymor byr, interniaethau gyda thâl a phrofiadau gwaith yn y dosbarth. Un o uchelgeisiau'r Brifysgol yw cael 50% o'i myfyrwyr israddedig i wneud lleoliad gwaith yn rhan o'u hastudiaethau. Cyfarfu'r tîm adolygu â grŵp o gyflogwyr a darparwyr lleoliadau gwaith a siaradodd yn bositif iawn am fyfyrwyr lleoliad gwaith Prifysgol Caerdydd. Roedd y cyflogwyr yn fodlon iawn gyda'r ffordd y mae'r Brifysgol yn ymgysylltu â nhw a sut y trefnir y lleoliadau gwaith. Roedd pob un o'r cyflogwyr yn deall ei gyfrifoldebau'n glir, a'r hyn a ddisgwylir ganddo. Mae rhai cyfleoedd lleoliad gwaith yn arwain at gyfleoedd i gael swydd iawn amser.

53 Mae cyfle i bob myfyriwr weithio ar Raglen Cyfleoedd Ymchwil Israddedig Caerdydd (CUROP). Gall y myfyrwyr wneud cais i'r Brifysgol i gael cyfle gwaith ymchwil gyda thâl gydag academydd. Roedd yr adborth am y rhaglen yn dangos bod cyfran uchel o'r myfyrwyr yn cytuno bod y lleoliadau gwaith wedi cynyddu eu dymuniad i barhau i astudio ar lefel ôl-raddedig. Mae cyfle i fyfyrwyr israddedig weithio ochr yn ochr â'u tiwtoriaid. Rhoddir blas i'r myfyrwyr o'r gweithgareddau ymchwil sy'n digwydd ymhob pwnc a chânt gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu sydd wedi'u dylanwadu gan ddiddordebau ymchwil y staff. Yn y cyfarfod gyda myfyrwyr, roedd y myfyrwyr yn llawn canmoliaeth am y cynllun. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y cyfleoedd a ddarperir gan y rhaglen CUROP i'r myfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil er mwyn cyfoethogi eu dysgu a gwella eu rhagolygon gyrfaoel at y dyfodol.

54 Trwy'r cynllun Cyfleoedd Byd-eang, mae cyfle i bob myfyriwr cyfredol astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor. Mae darpariaeth addysgol ac allgwrwicwlaidd y Brifysgol yn cefnogi'r myfyrwyr i'w datblygu fel dysgwyr byd-eang. Mae'r Ganolfan Cyfleoedd Byd-eang yn cydlynu symudedd rhyngwladol y myfyrwyr, ac mae cyfle i bob myfyriwr astudio dramor naill ai drwy weithgareddau symudedd rhyngwladol, rhaglenni cyfnewid rhyngwladol, prosiectau Erasmus, rhaglenni a lleoliadau gwaith rhyngwladol yn ystod yr haf, a chyfleoedd symudedd wedi'u harwain yn academiaidd. Mae'r myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn yn fawr iawn.

2.6 Yr amgylchedd dysgu a ddarperir, gan gynnwys y defnydd a wneir o dechnoleg

55 Clywodd y tîm adolygu bod y Brifysgol wedi buddsoddi yn yr amgylchedd dysgu a hynny yn nhermau'r gofodau dysgu ffisegol yn ogystal â'r amgylchedd digidol. Mae'r Brifysgol wrthi'n ymgynghori ar Strategaeth Ddigidol newydd ar hyn o bryd. Mae'r ddogfen strategaeth *Y Ffordd Ymlaen 2018-2023* yn nodi y "caiff myfyrwyr brofiad bywyd ac astudio rhagorol".

56 Mae'r Brifysgol yn y broses o weithredu rhaglen fawr o adnewyddu ei seilwaith TG gyda chostau o £17 miliwn. Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi dros £7 miliwn ers 2013 i uwchraddio rhwydwaith ei champws yn sylweddol. Mae'r Brifysgol hefyd wrthi'n gwneud gwaith gwerth £600 miliwn i uwchraddio ei champws i'w drawsnewid ar gyfer yr 21ain Ganrif. Mae'r Brifysgol wrthi'n creu Canolfan Bywyd y Myfyrwyr gwerth £50 miliwn a fydd yn agor yn 2021 i ddarparu canolfan ar gyfer gwasanaethau cymorth myfyrwyr, yn ogystal â manau dysgu cymdeithasol sy'n fodern ac yn hyblyg. Bydd hyn yn arwain at integreiddio'r holl wasanaethau cymorth ar yr un safle.

57 Yn ystod yr ymweliad, derbyniodd y tîm ddangosiad o'r rhith-amgylchedd dysgu sy'n rhan o'r Strategaeth Addysg Ddigidol. Mae pob aelod o'r staff yn derbyn hyfforddiant mewn defnyddio'r rhith-amgylchedd dysgu, ac mae sesiwn ymsefydlu ar-lein ar gael i'r myfyrwyr. Mae cyfle i bob myfyriwr gyflwyno eu hasesiadau drwy'r rhith-amgylchedd dysgu, ac maent yn derbyn adborth ar eu hasesiadau'n electronig. Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei rhith-amgylchedd dysgu sy'n darparu technoleg gipio sesiynau addysgu i'r Brifysgol gyfan. Mae'r rhith-amgylchedd dysgu'n cefnogi dulliau arloesol o ddysgu ac addysgu, ac mae'n adnodd gwerthfawr a chynhwysol i gefnogi myfyrwyr sydd ag anghenion cymorth dysgu ychwanegol. Gellir defnyddio'r rhith-amgylchedd dysgu hefyd i greu deunyddiau dysgu rhyngweithiol, ac i gynnal system drwy'r Brifysgol o gasglu ymatebion y gynulleidfa, yn ogystal â system ePortfolio.

58 Yn y cyfarfodydd gyda myfyrwyr, cafwyd ymateb cymysg i'r rhith-amgylchedd dysgu gyda'r myfyrwyr yn sôn bod y darlithwyr yn ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd - gyda rhai tiwtoriaid yn ei ddefnyddio'n rheolaidd i gyfathrebu gyda'r myfyrwyr tra bod eraill yn llai tebygol o wneud hynny. Yng Nghyflwyniad Ysgrifenedig y Myfyrwyr blynyddol ar gyfer 2019 nododd y myfyrwyr hefyd bod rhywfaint o anghysondeb o hyd ledled y Brifysgol o ran y defnydd a wneir o'r rhith-amgylchedd dysgu. O ganlyniad, mae ffocws y Brifysgol ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019-20 ar roi hyfforddiant a chefnogaeth i'r staff yn yr ysgolion ac ar gynyddu hyder pobl mewn defnyddio'r rhith-amgylchedd dysgu yn effeithiol.

59 Ar y cyfan, dywedodd y myfyrwyr eu bod yn hapus gyda'r adnoddau llyfrgell a'r cyfleusterau TG a chadarnhawyd hynny yn sgorau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyryr.

2.7 Cefnogi profiad dysgu'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg

60 Mae'r strategaeth *Y Ffordd Ymlaen 2018-2023* yn ymrwmo'r Brifysgol i gynyddu ei darpariaeth gyfrwng Cymraeg. Yn y Brifysgol, mae Deon y Gymraeg yn goruchwyllo materion Cymraeg, gyda chefnogaeth gan Ddirprwy Is-Ganghellor Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol sy'n gweithredu fel Cefnogwr Gweithredol. Mae Grŵp Strategaeth y Gymraeg yn gyfrifol am ddarparu arweiniad a chraffu i Ddeon y Gymraeg.

61 Mae Bwrdd Ymgynghorol Materion Cymraeg sy'n goruchwyllo arferion y Brifysgol mewn perthynas â'r Safonau Iaith Gymraeg. Gyda Bwrdd Gweithredol y Brifysgol y mae'r cyfrifoldeb pennaf am sicrhau fod y Brifysgol yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r polisi iaith Gymraeg, ynghyd â gweithrediad yr holl bolisiâu eraill a materion monitro. Mae'r cyfrifoldeb penodol am arweiniad a chynghor ynghylch y Safonau Iaith Gymraeg ar ysgwyddau'r Gwasanaethau Sicrwydd o fewn

yr Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu. Mae'r Gwasanaethau Sicrwydd yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r Grŵp Llywio Iaith Gymraeg, dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredu. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am weithrediad y gweithgareddau o ddydd i ddydd sy'n sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg a'r polisiau cysylltiedig. Mae'r Bwrdd Ymgynghorol Materion Cymraeg yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' a chynghorydd mewn perthynas â chynlluniau'r Brifysgol i hybu'r iaith Gymraeg. Mae'r Brifysgol yn cynnig nifer sylweddol o fodiwlau y gellir eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ystod eang o feysydd astudio, o'r gyfraith i feddygaeth.

62 Mae cyfrifoldeb hefyd gan gangen Caerdydd o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ddatblygu'r addysg cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol. Mae Cynllun Staffio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn noddi rhai o staff academiaidd y Brifysgol.

63 Mae cyfle i bob aelod o'r staff ddysgu Cymraeg drwy gofrestru ar gyrsiau a redir gan ddarpariaeth 'Dysgu Cymraeg Caerdydd' y Brifysgol. Gall y myfyrwyr ddefnyddio modiwl rhyngweithiol ar-lein am ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, ac mae'r rhaglen Cymraeg i Bawb ar gael yn rhad ac am ddim iddynt.

64 Sefydlwyd Rhwydwaith Hyrwyddwyr y Gymraeg sy'n gweithredu fel fforwm i rannu arferion gorau. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys o leiaf un aelod o staff o bob ysgol, coleg ac adran. Nhw yw'r pwyntiau cysylltu cychwynnol ar gyfer y Gwasanaethau Sicrwydd a'r ysgol/adran lle maen nhw'n gweithio. Mae'r Gwasanaethau Sicrwydd yn cyfathrebu â'r hyrwyddwyr yn rheolaidd i ddosbarthu gwybodaeth ac arweiniad sy'n helpu'r Brifysgol i gydymffurfio â'r Safonau, ac mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter i rannu arferion da a thrafod syniadau.

65 Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig nifer o gyfleoedd i'r myfyrwyr sydd eisiau astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cyfle i bob myfyriwr ddysgu Cymraeg drwy'r rhaglen Cymraeg i Bawb. Soniodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw am rai problemau yn ymwneud â chyfieithu asesiadau a gynhelir yn y Gymraeg. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Brifysgol nad oeddent yn ymwybodol o broblemau o'r fath am nad ydynt wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol. Dywedodd y Brifysgol bod ganddi Strategaeth y Gymraeg newydd i geisio gwella'r ddarpariaeth bresennol ac sy'n alinio â chanllawiau QAA.

66 Mae myfyrwyr yn cael cyfle i sefyll arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, p'un a ydyn nhw wedi derbyn tiwtora drwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio. Os bydd myfyrwyr yn dymuno sefyll eu harholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod gwaith cwrs a asesir, papurau a sgriptiau arholiad yn cael eu cyfieithu os nad oes marcwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael. Mae'r trefniadau hyn yn ddarostyngedig i unrhyw ganllawiau a rheoliadau cenedlaethol neu gan gyrff proffesiynol neu ganllawiau QAA.

67 Mae'r Ysgol Feddygaeth wedi gwneud llawer iawn i hybu'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn annog mwy o siaradwyr Cymraeg i mewn i'r Ysgol. Mae cyfle i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer graddau mewn meddygaeth a fferylliaeth gael lleoliadau gwaith cyfrwng Cymraeg ac mae timau'r rhaglenni'n gwneud llawer iawn i gyfateb myfyrwyr gyda lleoliadau gwaith addas lle mae cyfleoedd iddynt siarad Cymraeg.

2.8 Effeithiolrwydd y dull o wella profiad dysgu'r myfyrwyr

68 Clywodd y tîm fod dull y Brifysgol o sicrhau ansawdd wedi cael ei ddatblygu gyda phwyslais cryf ar wella, er mwyn caniatáu proses o welliant parhaus mewn dysgu ac addysgu, wedi'i hysbysu gan lais y myfyrwyr. Dangosir hyn gan y broses o Adolygu a Gwella'n Flynyddol (AGF) a'r Adolygiad Blynyddol o'r system reoli ansawdd academiaidd, y gwelir tystiolaeth ohono yn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol.

69 Canfu'r tîm fod y broses AGF yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth sy'n dangos gwelliant. Mae'r broses wedi'i seilio ar dystiolaeth, ac mae wedi'i llunio i annog a hwyluso

gwelliannau ym mhrofiad y myfyrwyr. Mae'r broses AGF yn rhoi cyfle i'r ysgolion eu hadolygu eu hunain mewn ymateb i ystod o dystiolaeth sy'n cynnwys data o arolygon a gwerthusiadau o fodiwlau, ac i ganfod ymatebion priodol. Cofnodir y camau gweithredu hyn yng Nghynllun Gwella Profiad Myfyrwyr yr ysgol, sy'n darparu'r cyfle yn y cylchred adolygu dilynol i adolygu effeithiolrwydd y camau gweithredu a gymerwyd.

70 Mae'r broses AGF wedi'i llunio hefyd i adnabod a darparu'r cyfle i rannu arferion da - er mwyn sicrhau bod modd ystyried unrhyw gamau gweithredu sydd wedi bod yn effeithiol a, lle bo'n briodol, bod modd i bobl eraill eu defnyddio. Mewn cyfarfodydd gyda'r staff, roeddent yn gallu nodi'n glir beth yw manteision y Cynlluniau Gwella Profiad Myfyrwyr.

71 Canfu'r tîm fod y broses flynyddol o adolygu prosesau ansawdd, gan gynnwys y cyfraniad mae'n ei wneud i welliant mewn dysgu ac addysgu, yn cael ei defnyddio i adrodd i'r Senedd am effeithiolrwydd y dull o sicrhau ansawdd. Mae canlyniad yr adolygiad wedi'i ddisgrifio yn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol.

72 Mae dull y Brifysgol o sicrhau gwelliant wedi'i fframio gan strategaeth y sefydliad *Y Ffordd Ymlaen 2018-2023* ac, yn arbennig, yr is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr. Mae'r Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr, dan arweiniad y Dirprwy Is-Ganghellor Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academaidd, yn gyfrifol am sicrhau gwelliant yn y meysydd dysgu ac addysgu. Mae'r grŵp hwn yn derbyn data am brofiad y myfyrwyr er mwyn galluogi blaenoriaethu. Yn ogystal, mae nifer fechan o grwpiau darparu sy'n cynllunio ac yn rheoli'r gwaith mewn meysydd allweddol i'w gwella, megis gweithgareddau lleoliadau, priodoleddau graddedigion, rheoli arolygon, a busnes a menter.

73 Mae'r grwpiau hyn yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr. Mae hefyd Grŵp Llywio FfRhA sy'n adolygu'r data ac yn defnyddio'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu i flaenoriaethu cynlluniau gwella, ynghyd ag ymrwymiad i ymgysylltu'n adeiladol â'r FfRhA er mwyn gwella'r perfformiad mewn dysgu ac addysgu ac mewn perthynas â phrofiad y myfyrwyr. Defnyddir y Cynllun Ffioedd a Mynediad a'r broses AGF i gynllunio gwelliannau mewn dysgu ac addysgu ar gyfer y dyfodol.

74 Clywodd y tîm fod nifer o argymhellion wedi'u hawgrymu, o ganlyniad i'r adolygiad o brofiad y myfyrwyr a gafwyd yn 2017, mewn perthynas â'r defnydd a wneir gan y Brifysgol o ddata i gefnogi gwella addysg. Ymysg y gwelliannau a gafwyd o ganlyniad i hyn mae'r prosiect o weddnewid y Gwasanaethau Data. Nod y prosiect hwn yw sefydlu dull gwasanaeth y cytunwyd arno sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau dadansoddi data sydd ar gael ar draws y Brifysgol i ddarparu gwybodaeth rheoli a gwybodaeth busnes sy'n ddibynadwy ac yn ddefnyddiol i randdeiliaid mewn da bryd, er mwyn datblygu gwybodaeth a rhagwelediad i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau.

75 Mae'r Brifysgol hefyd wedi mabwysiadu dull newydd o reoli arolygon, a'i nodweddion arbennig yw darparu data'n gyflym gyda ffocws ar berfformiad yn erbyn meincnodau'r sector, cynnal trafodaethau strwythuredig gyda'r ysgolion i ganolbwyntio ar feysydd sydd angen eu datblygu, a dull cyson i'r Brifysgol gyfan o gynllunio a monitro camau gweithredu. Mae'r fframwaith yn defnyddio llais y myfyrwyr a data'r ACF fel sail ar gyfer trafodaethau gyda phob un o'r colegau a'r ysgolion. Mae pob ysgol yn cynhyrchu Cynllun Gwella Profiad Myfyrwyr sy'n ystyried yn feirniadol y canlyniadau a'r camau gweithredu a gymerir mewn ymateb iddynt. Mae hyn yn pennu'r blaenoriaethau ar gyfer y colegau, ac ar gyfer y Ganolfan Arloesedd a Chefnogaeth Addysg. Erbyn hyn, mae prosesau safonol o werthuso modiwlau ar waith ym mhob ysgol ac maent wedi'u halinio â'r broses AGF. Clywodd y tîm fod hyn wedi galluogi a hwyluso dull mwy systematig o fonitro camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i adborth a roddir gan fyfyrwyr ar eu modiwlau.

76 Ar y cyfan, canfu'r tîm adolygu fod nifer o newidiadau wedi'u cychwyn a'u gweithredu a'i bod hi'n rhy fuan i werthuso effaith y newidiadau hyn yn llawn ac ymhle y ceir arolygiaeth.

3 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu

3.1 Y dull strategol o gynllunio i'r dyfodol, gan gynnwys y defnydd a wneir o wybodaeth er mwyn pennu blaenoriaethau o ran gwella'r dysgu a'r addysgu, a'r dulliau o'u gweithredu a'u gwerthuso

77 Mae dull strategol y Brifysgol o sicrhau gwelliant yn canolbwyntio ar brofiad y myfyrwyr ac mae hyn wedi'i esbonio'n glir mewn hierarchaeth o gynlluniau strategol. Mae'r dogfennau'n amlinellu gweledigaeth y Brifysgol ynghyd â'i gwerthoedd, ei themâu strategol a'i thargedau ar gyfer llwyddo. I fonitro cynnydd, mae Bwrdd Gweithredol y Brifysgol yn adolygu dangosyddion perfformiad allweddol yn rheolaidd er mwyn deall y cynnydd yn erbyn y targedau sydd wedi'u hamlinellu yn is-strategaethau'r Brifysgol. Mae hyn yn hysbysu cynllun gweithredol blynyddol ar lefel y Bwrdd sy'n mapio atebolrwydd y staff yn erbyn amcanion penodol. Adolygir y metrigau hefyd gan aelodau o'r Cyngor ac mae hyn yn eu helpu i ddeall mentrau gwella a pherfformiad ar lefel y sefydliad. Mae'r gwaith o ddysgu ac addysgu a'r dulliau o'i wella'n cael eu monitro ymhellach o fewn fforymau gyda ffocws ar welliant sy'n cefnogi gwaith Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr y Brifysgol ar lefel y sefydliad ei hun. Hefyd, mae cyfarfodydd wedi'u sefydlu rhwng y colegau a'r gwasanaethau proffesiynol er mwyn profi a herio perfformiad o fewn y themâu diffiniedig ar bob lefel academiaidd ac ymhob adran wasanaeth ar draws y Brifysgol.

78 Mae proses y Brifysgol o Adolygu a Gwella'n Flynyddol (AGF) yn tanategu'r gwaith o ddysgu ac addysgu ac o gynllunio gwelliant ar lefel y colegau a'r ysgolion. Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi diwygio'r broses AGF i ganiatáu i raglenni gael eu hadolygu'n barhaus ac mewn da bryd. Mae adroddiadau AGF ar lefel yr ysgolion yn ystyried ystod eang o ddata meintiol ac ansoddol, sy'n cynnwys metrigau am berfformiad y myfyrwyr, adborth mewn ystod o arolygon myfyrwyr, adroddiadau gan arholwyr allanol, ac adroddiadau gan gyrrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRB). Caiff adroddiadau penodol i ysgolion eu hadolygu yn ystod cyfarfodydd Pwyllgorau AGF y colegau, ac mae hyn yn hysbysu adroddiadau AGF ar lefel y colegau a ddefnyddir i ledaenu arferion da a thynnu sylw at faterion sydd angen eu gwella yn ystod y cylchred cynllunio cyfredol. Gofynnir i'r colegau roi adroddiad ar lafar ac mewn ysgrifennu i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd, a dosbarthu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella ar lefel yr ysgolion. Mae'r tîm adolygu o'r farn y bydd y broses yn gwella canlyniadau'r myfyrwyr am fod y metrigau perthnasol yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae'r staff wedi croesawu'r gwelliannau yn y broses ac roeddent yn cadarnhau y byddai hyn yn darparu mewnbwn systematig a mwy amserol i fentrau gwella ym mhob maes astudio.

79 Yn 2017, comisiynwyd adolygiad o brofiad y myfyrwyr, ac arweiniodd hynny at nifer o argymhellion ynghylch defnyddio data'r myfyrwyr i wella'r dysgu a'r addysgu. Mae prosiect gweddnewid y Gwasanaethau Data wedi gwella mynediad y rhanddeiliaid a gweithrediad metrigau'r dysgu a'r addysgu ar lefelau'r rhaglenni, yr ysgolion, y colegau a'r brifysgol. Darperir data'r ACF yn ganolog mewn da bryd i gefnogi'r ysgolion i baratoi a chyhoeddi Cynlluniau Gwella Profiad Myfyrwyr, sy'n cael eu defnyddio ochr yn ochr â'r broses AGF i ddatblygu camau gweithredu i wella profiad y myfyrwyr. Yn ogystal, lluniwyd y Fframwaith Rheoli Arolygon i wella'r dulliau o reoli canlyniadau arolygon a chymryd camau gweithredu mewn ymateb iddynt. Ar lefel y modiwlau, mae'r broses o werthuso arolygon a'i pholisi cysylltiedig wedi'u halinio â'r broses AGF er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn ymateb i lais y myfyrwyr. Mae cyflwyniad y myfyrwyr yn cadarnhau'r newid yn y gwaith partneriaeth ers yr adolygiad diwethaf, ac mae'r myfyrwyr yn chwarae rôl weithredol yn y broses o bennu blaenoriaethau'r Brifysgol o ran gwelliant drwy ystyried yr hyn sydd yn eu hadroddiadau blynyddol, system gynrychiolaeth y myfyrwyr, a'u hadborth mewn nifer o arolygon myfyrwyr. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y dulliau o ddarparu data'n gyson ac mewn da bryd, gweithrediad y Fframwaith Rheoli Arolygon, ynghyd â'r gwelliannau yn y broses AGF, yn darparu sylfaen i sicrhau gwelliant mewn dysgu ac addysgu ar draws y Brifysgol.

3.2 Y dulliau o reoli newidiadau mewn dulliau o ddysgu ac addysgu

80 Mae Deoniaid y Colegau a'r Brifysgol yn cefnogi'r Dirprwy Is-Ganghellor Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academaidd a chyfarwyddwyr y gwasanaethau proffesiynol yn eu gwaith o wella'r dysgu a'r addysgu yn unol ag is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr y Brifysgol. Ysgogir gwelliant mewn dysgu ac addysgu gan y Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr, gyda chefnogaeth gan nifer o is-grwpiau megis Grŵp Gweithredu Profiad y Myfyrwyr â'r Grŵp Rheoli Arolygon.

81 Ar lefel y colegau, rheolir newidiadau gan Fwrdd y Coleg, sy'n cynnwys Pennaeth y Coleg (Dirprwy Is-Ganghellor), Deon y Coleg, a Phenaethiaid pob ysgol academaidd ym mhob coleg. Wrth weithredu newidiadau sy'n cefnogi'r gwaith o ddysgu ac addysgu, cefnogir Pennaeth pob coleg gan Gyfarwyddwyr Astudiaethau Ymchwil Ôl-raddedig a Chyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu'r ysgolion. Er nad yw cyfarfodydd Bwrdd y Coleg yn cynnwys y Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu, nododd y tîm adolygu bod y cyfarwyddwyr hyn yn adrodd i Benaethiaid eu hysgolion a bod rhwydweithiau o Gyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu wedi'u sefydlu i rannu arferion gorau ar lefel y colegau.

82 Mae'r Brifysgol wedi adolygu rôl y Deoniaid yn strategol gan roi mwy o ffocws ar hwyluso'r newid sefydliadol i wella'r dysgu a'r addysgu. Mae Deoniaid Astudiaethau Israddedig ac Ôl-raddedig, a benodir gan y colegau, yn arwain taith astudio'r myfyrwyr, ac maent yn gyfrifol am recriwtio a derbyn myfyrwyr, am ansawdd profiad y myfyrwyr, am lais y myfyrwyr ac am eu cyflogadwyedd at y dyfodol. Mae'r Brifysgol hefyd wedi buddsoddi mewn portffolios Deoniaid i ymdrin ag ystod o feysydd thematig yn ymwneud â dysgu ac addysgu, megis cyflogadwyedd a'r Gymraeg. Creda'r tîm adolygu bod y buddsoddiad yn y strwythur Deoniaid yn helpu'r Brifysgol gyda'i hagenda i sicrhau gwelliant.

83 Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi mewn Cyfarwyddwr academaidd i arwain y Ganolfan Arloesedd a Chefnogaeth Addysg sy'n darparu adnodd sefydliadol ychwanegol i ddatblygu'r dysgu a'r addysgu drwy gynllunio rhaglenni, defnyddio technoleg i gefnogi dysgu, a darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol i wella addysgeg. Mae'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni'n goruchwyllo prosesau newid er mwyn sicrhau bod newidiadau strategol yn cael eu gweithredu ar sail tystiolaeth a bod prosiectau cysylltiedig yn cael eu rheoli o fewn fframwaith darparu cyson. Mae'r Fframwaith Gwasanaethau Data a Rheoli Arolygon yn darparu ffynhonnell gyson o wybodaeth i randdeiliaid sy'n cefnogi newidiadau a gwelliannau ar lefel y rhaglenni drwy werthuso ffynonellau gwybodaeth megis arolygon modiwlau a chanlyniadau'r ACF. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod model arweinyddiaeth ddosranedig y Brifysgol yn darparu fframwaith sydd ag adnoddau digonol i reoli newidiadau strategol a gwella'r dysgu a'r addysgu.

3.3 Y dulliau o gefnogi arloesi, a chanfod a rhannu arferion da

84 Mae'r Brifysgol wedi'i hymrwymo i gefnogi arloesedd addysgol drwy rannu arferion gorau ar lefelau'r rhaglenni, yr ysgolion, y colegau a'r sefydliad. Mae'r Ganolfan Arloesedd a Chefnogaeth Addysg yn darparu adnoddau i gynnal, gwella a gweithredu arloesedd addysgol yn rhan o'r ddarpariaeth academaidd newydd a chyfredol. Mae hyn yn cynnwys y gwaith o reoli'r Hwb Dysgu, sy'n ofod rhithwir i rannu adnoddau rhwng pum menter gwella: dylunio ar gyfer dysgu, asesu ar gyfer dysgu, cefnogi gwaith addysgu, cynorthwyo myfyrwyr, a datblygiad proffesiynol. Mae'r Hwb yn rhyngweithiol ac yn hawdd ei lywio, ac mae'n galluogi i randdeiliaid rannu arloesedd ym meysydd addysgeg ac arferion addysgol. Cefnogir llawer o'r gwaith a gyhoeddir ar yr Hwb gan y Gronfa Arloesedd Addysg sy'n darparu arian wedi'i dargedu i hybu mentrau allweddol ym meysydd dysgu ac addysgu sy'n alinio â chynllun strategol trosfwaol y Brifysgol. Rhennir arferion gorau sy'n codi o'r prosiectau drwy'r Gynhadledd Dysgu ac Addysgu, a gynhelir gan y Ganolfan Arloesedd a Chefnogaeth Addysg bob blwyddyn, sydd hefyd yn rhoi cyfle i ysgolheigion a gydnabyddir yn rhyngwladol hysbysu arloesedd addysgol yn y Brifysgol.

85 I ymestyn ei heffaith a'i chyrhaeddiad, mae'r Ganolfan yn cefnogi'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm ar y cam datblygu rhaglenni drwy hyrwyddo'r Fframwaith ABC sy'n mynd ati i annog trafodaethau rhwng y staff a'r myfyrwyr ynghylch dysgu ac addysgu i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cyfranogi'n weithredol yn y broses o gynllunio rhaglenni ar gyfer y dyfodol. Mae'r Ganolfan wedi cynnal 15 o weithdai sydd wedi defnyddio'r dull hwn o ddatblygu rhaglenni. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Ganolfan yn cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu mewn ffordd ragweithiol a chadarnhaol. Nid oes tystiolaeth lawn ar gael eto ar lefel sefydliadol o effaith lawn y dull hwn o sicrhau gwelliant.

86 Mae'r Brifysgol hefyd yn hybu gwelliant mewn dysgu ac addysgu drwy ei phrosesau o gydnabod a gwobrwyo, megis y gwobrau blynyddol i'w staff a chinio dathlu i gyfarwyddwyr rhaglenni sy'n derbyn lefelau uchel o foddhad cyffredinol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr. Ar lefel strategol, mae'r Brifysgol wedi sefydlu Rhwydwaith Cymrodorion Uwch i feithrin cydweithrediad rhwng yr academyddion hynny sy'n arweinwyr sicr mewn dysgu ac addysgu, ac mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu'r rhwydwaith i greu Academi Cymrodorion Prifysgol Caerdydd. Mae cyfleoedd i weithwyr cyflogedig ar lwybrau gyrfaol academiaidd gael dyrchafiad ar sail tystiolaeth sy'n gofyn eu bod yn dangos ym mha feysydd y maent wedi bod yn arbennig o effeithiol a'r dylanwad y maent wedi'i gael mewn gwaith ymchwil ac/neu addysgu ac ysgolheictod.

87 Er mwyn rhannu mentrau arloesol ac arferion gorau, mae'r Brifysgol yn dibynnu ar ei strwythur adrodd hierarchaidd, gyda chefnogaeth gan gyfres o grwpiau cynghori gweithredol sydd â ffocws ar sicrhau gwelliant. Mae Deoniaid y Colegau'n goruchwylio'r broses AGF, ac maent yn cyfarfod â Chyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu'r ysgolion yn rheolaidd, gan ddarparu cyfleoedd i ganfod a rhannu arferion da rhwng yr ysgolion o fewn y coleg. Mae Rheolwyr Addysgu y colegau'n rhoi cymorth i'r gwasanaethau proffesiynol i helpu'r tîm academiaidd ac i hybu'r colegau i rannu arferion gorau rhyngddynt. Tanategir y prosesau o ganfod a rhannu arferion gorau ymhellach gan y broses AGF a phrosesau ansawdd y Fframwaith Rheoli Arolygon. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod gan y Brifysgol drefnau rheoli a sicrhau ansawdd sy'n cefnogi arloesedd, ac sy'n canfod ac yn rhannu arferion gorau drwy'r sefydliad cyfan.

3.4 Cefnogi a datblygu staff ac ymgysylltu â nhw

88 Mae'r Brifysgol yn gweithredu prosesau effeithiol i gefnogi datblygiad proffesiynol ei staff i gyd ac i'w hannog i gymryd rhan ynddo. Mae'r prosesau hyn wedi'u tanategu gan ei Strategaeth Bobl sy'n sefydlu fframwaith i gefnogi ei staff i gyflawni rhagoriaeth, ac i sicrhau bod ei gweithlu'n gallu gweithredu'r cynllun strategol sefydliadol yn llwyddiannus. Mae ei phrosesau datblygu cynhwysol yn sicrhau bod pob aelod o'i staff yn gallu cyflawni eu huchelgeisiau personol gan hefyd ddysgu'r sgiliau a'r ymddygiad i gefnogi datblygiad gyrfaol, fel sydd wedi'i amlinellu ar gyfer 'Academydd Caerdydd' a 'Gweithiwr Proffesiynol Caerdydd'.

89 Mae gan y Brifysgol broses Adolygu Datblygiad Personol flynyddol sefydledig sy'n gofyn i staff fyfyrion ar eu perfformiad a'u datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Mae'r Brifysgol yn cydnabod cyfraniad yr unigolyn drwy fframwaith dyrchafu academiaidd eglur sy'n berthnasol i bob llwybr gyrfaol. Mae'r Llwybr Addysgu ac Ysgolheictod wedi galluogi i aelodau o'i staff gael eu dyrchafu o swydd Darlithydd i Uwch Ddarlithydd, ac yna i Ddarlennydd ac ymlaen i Gadeirydd Personol. Mae'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu'n cynnwys rhaglenni mewn arweinyddiaeth i gydweithwyr sydd ar wahanol gamau yn eu gyrfaedd, ac mae llawer o'r cyfleoedd yn targedu arweinwyr dysgu ac addysgu.

90 Mae'r Ganolfan Arloesedd a Chefnogaeth Addysgu yn hwyluso newid yn narpariaeth y Brifysgol gyda rhaglenni sy'n cefnogi ei staff i ddatblygu eu harferion dysgu ac addysgu. Mae'r ddarpariaeth i staff academiaidd ar brawf yn cynnwys rhaglenni ar gyfeiriadaeth academiaidd a datblygiad parhaus eu harferion academiaidd - mae'r olaf yn eu helpu i gyrraedd statws Cymrawd Advance HE. O ran y staff cyfredol, targedir y ddarpariaeth at y rheiny sy'n addysgu yn ogystal â'r rheiny sy'n cefnogi dysgu ac addysgu, ac mae'n canolbwyntio ar ddarparu cynllun ag

achrediad Advance HE sy'n arwain at statws Cymrawd Cyswllt ac/neu Uwch Gymrawd yr Academi Addysg Uwch (AAU). Mae cymorth ariannol a threfniadol ar gael i aelodau o'r staff sydd eisiau ymgysylltu â'r Academi Addysg Uwch (AAU) er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth ehangach i'w gwaith dysgu ac addysgu. Ymysg y cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus eraill i gefnogi dysgu ac addysgu mae gweithdai am gymrodoriaeth, cynllun peilot 'Exploring Principal Fellowship', y Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg Feddygol, y modiwl 'Learn to Teach' i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, a'r rhaglen 'Leading Learning and Teaching' i arweinwyr academiaidd. Mae'r tîm adolygu o'r farn y bydd dulliau'r Ganolfan Arloesedd a Chefnogaeth Addysg o gefnogi staff yn gwella eu harferion dysgu ac addysgu, a thrwy hynny byddent yn sicrhau buddion i'r sefydliad o ran profiad ei fyfyrwyr.

3.5 Effeithiolrwydd y dulliau o weithredu strategaethau sefydliadol a gwella'r dysgu a'r addysgu

91 Mae gan y Brifysgol fframwaith cadarn ar gyfer gweithredu a monitro strategaethau i hwyluso gwelliant mewn dysgu ac addysgu. Mae Bwrdd Gweithredol a Chyngor y Brifysgol yn monitro gweithrediad strategaeth y Brifysgol yn erbyn cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol ac mae hyn yn sicrhau bod yr ymrwymadau a addewir i'r myfyrwyr yn cael eu gweithredu.

92 Mae gan y Brifysgol strwythurau gweithredu a rheoli i hwyluso rhannu arferion gorau mewn dysgu ac addysgu. Mae Deoniaid wedi'u penodi i sicrhau bod gwelliant mewn dysgu ac addysgu'n cael ei fonitro ar lefel y brifysgol a'r colegau. Mae'r Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr yn sicrhau rhagor o oruchwyliaeth, ac mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd yn sicrhau bod y safonau academiaidd yn cael eu cynnal.

93 Canfu'r tîm adolygu fod nifer o'r mentrau newid a weithredwyd gan y Brifysgol wedi cael effaith bositif ar yr amgylchedd dysgu ac addysgu. Mae'r rhain yn cynnwys y broses AGF ddiwygiedig, gwell gwasanaethau data, y Fframwaith Rheoli Arolygon a'r gefnogaeth a roddir i'r staff gan y Ganolfan Arloesedd a Chefnogaeth Addysg i ddatblygu'r cwricwlwm a dulliau unigol o ddysgu ac addysgu. Mae'r tîm adolygu'n hyderus y bydd y mentrau hyn yn arwain at welliant effeithiol parhaus yn yr amgylchedd dysgu ac addysgu.

4 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd

4.1 Nodweddion allweddol dulliau'r darparwr o reoli ansawdd a'r ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o reoli ansawdd y cyfleoedd dysgu

94 Mae dulliau'r Brifysgol o reoli ansawdd a phrofiad dysgu'r myfyrwyr wedi'u strwythuro o amgylch ei Rheoliadau Academaidd, sy'n nodi'r egwyddorion llywodraethu academaidd allweddol, a Phwyllgorau ei Senedd, yn bennaf y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd - sydd ag awdurdod dirprwyedig am oruchwylio ansawdd a safonau dyfarniadau a darpariaeth addysgol y Brifysgol - ac is-bwyllgorau'r Pwyllgor hwn. Cafodd y rheoliadau academaidd eu hailysgrifennu a'u lansio ym mlwyddyn academaidd 2019-20. Sicrhodd y Brifysgol bod myfyrwyr wedi'u cynnwys yn y broses ddiwygio, ac er nad oedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n ymwybodol o'r adolygiad rheoliadau ynddo'i hun, roedden nhw'n gwybod bod rhai adrannau penodol wedi cael eu haddasu. Mae'r Brifysgol yn nodi ei bod yn adolygu ei holl reoliadau a pholisïau dros gyloch o bum mlynedd fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd.

95 Roedd y tîm adolygu'n ei chael hi'n anodd canfod y strwythurau a ddefnyddir i gynnal trafodaethau am faterion megis safonau academaidd, dysgu ac addysgu, a phrofiad y myfyrwyr, oherwydd y nifer enfawr o wahanol bwyllgorau, grwpiau a rhwydweithiau sy'n bodoli - rhai ohonynt yn ffurfiol a rhai eraill yn anffurfiol. O ran y trefnau ymgynghori, mae pwyllgorau sefydledig ar lefel y brifysgol (y Cyngor, y Senedd a'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd), y colegau (Bwrdd y Coleg, Is-bwyllgor AGF y Coleg) a'r ysgolion (Bwrdd yr Ysgol, Bwrdd Astudiaethau), a'r olaf o'r rhain yw'r brif uned ffocws ar gyfer materion yn ymwneud â rheoli ansawdd a safonau academaidd.

96 Ar lefel y brifysgol, yn weithredol o flwyddyn academaidd 2017-18, mae'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd wedi gostwng nifer ei is-bwyllgorau i ddau - Is-bwyllgor Adolygu a Gwella'n Flynyddol (AGF) y colegau a'r Panel Sefydlog Partneriaid a Rhaglenni. Holodd y tîm adolygu ynghylch y maint o fusnes yr oedd y Panel Sefydlog yn gyfrifol amdano a cheisiodd sicrwydd i gadarnhau bod penderfyniadau a wneir gan banel o aelodau sy'n cael eu newid yn rheolaidd yn gydradd â'i gilydd. Sicrhawyd y tîm gan gydweithwyr yn y Brifysgol ei fod yn ddigon cadarn a'i fod wedi cael ei groesawu fel newid positif i sicrhau mwy o gysondeb yn y prosesau gwneud penderfyniadau.

97 Er nad yw strwythur ymgynghori'r Brifysgol yn cynnwys unrhyw bwyllgor dysgu ac addysgu, nododd y Brifysgol bod cyfle i drafod materion o'r fath yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a/neu'r Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr, sef corff sy'n cynghori'r Dirprwy Is-Ganghellor Profiad y Myfyrwyr a Safonau Academaidd, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy hwnnw. Nid oes unrhyw gyfeiriad at hyn yng nghylch gwaith y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd na'r Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr, nac yn y cofnodion a ddarparwyd gan y Brifysgol ar gyfer y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd. Fodd bynnag, mae cofnodion y Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr yn cynnwys rhai cyfeiriadau at feysydd dysgu ac addysgu, a chadarnhaodd y Brifysgol bod materion dysgu ac addysgu'n cael eu trafod drwy rwydweithiau, yn cynnwys Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu'r ysgolion sy'n bwydo i mewn i'r Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr. Nododd y tîm adolygu nad yw'r Grŵp Strategaeth Profiad Myfyrwyr yn rhan o strwythur ymgynghori'r Brifysgol.

98 Yn aml iawn, mae'r enwau a'r cylchoedd gwaith sydd gan bwyllgorau ar lefelau'r colegau a'r ysgolion yn amrywio, a gall eu trefnau amrywio hefyd rhwng y colegau. Mae gan bob ysgol Bwyllgor Addysg sef y fforwm ar gyfer symud materion dysgu ac addysgu ymlaen at Fwrdd y Coleg. Ar lefel y colegau, mae gan bob coleg Fwrdd y Coleg, a ddisgrifiwyd gan y Brifysgol yn ei Dadansoddiad Hunanwerthuso fel fforwm lle gall staff uwch y coleg drafod materion yn ymwneud â safonau ac ansawdd academaidd, a blaenoriaethau addysgol. Nid yw'r cofnodion a dderbyniwyd gan y tîm adolygu'n dangos bod y materion hyn yn cael eu trafod

yn rheolaidd, a chadarnhaodd y Brifysgol yn ystod yr ymweliad adolygu fod Bwrdd y Coleg wrthi'n ystyried materion strategol, a chynlluniau a pherfformiad yr ysgolion sy'n berthnasol i Fwrdd Gweithredol y Brifysgol. Cyflwynir materion yn ymwneud â'r agenda addysgol yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd.

99 Mae gan bob coleg hefyd fforymau Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu a Chyfarwyddwyr Astudiaethau Ymchwil Ôl-raddedig - er bod eu henwau'n amrywio rhwng y colegau - sy'n hwyluso trafodaethau am faterion yn ymwneud â pholisïau addysgol, ac ansawdd a safonau. Mae Pwyllgorau Adolygu a Gwella'n Flynyddol (AGF) y colegau'n is-bwyllgorau i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd. Drwy'r broses AGF, maent yn ystyried ymatebion a chatau gweithredu'r ysgolion yn rhan o'r broses AGF ac yn goruchwyllo Cynlluniau Gwella Profiad Myfyrwyr yr ysgolion, ac maent yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd am faterion ansawdd a safonau.

100 Mae gan bob ysgol fwrdd sy'n gyfatebol â Bwrdd yr Ysgol, sef corff sy'n cynghori Pennaeth yr Ysgol am faterion polisi mawr. Mae pob rhaglen yn cael ei goruchwyllo gan Fwrdd Astudiaethau, a sefydlwyd gan Bennaeth yr Ysgol, i sicrhau cydlynad rhwng yr holl faterion academaidd a gweinyddol sy'n ymwneud â'r rhaglenni a addysgir y mae'r ysgol yn eu darparu. Mae prif ddyletswyddau'r Byrddau hyn yn cynnwys y canlynol: bod yn gyfrifol am y broses o Adolygu a Gwella'n Flynyddol (AGF) er mwyn cynghori Bwrdd yr Ysgol ar faterion megis addasrwydd parhaus yr amcanion ar lefel y rhaglenni, a chanlyniadau dysgu a fwriedir; diwygio strategaethau asesu, ymdrin ag ymweliadau ac adroddiadau gan gyrff PSRB; monitro trefniadau 'addysgu allan'; ac adolygu pob adroddiad gan arholwyr allanol. Mae'r ffynonellau gwybodaeth a ddarparwyd i'r tîm adolygu'n dangos bod y materion hyn yn cael eu trafod i raddau amrywiol, ond pan adolygwyd y cofnodion a roddwyd i'r tîm gwelwyd mai prin iawn y cyfeirir at arholwyr allanol ynddynt. Dywedwyd wrth y tîm adolygu y gallai Bwrdd yr Ysgol hefyd weithredu fel Bwrdd Astudiaethau lle mae'r ysgol yn rhedeg dim ond un rhaglen, er nad oedd hi'n amlwg pa raglenni a pha ysgolion sy'n gweithredu yn y ffordd hon.

101 Mae trefnau llywodraethu'r Brifysgol yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cynnwys fel aelodau ar bwyllgorau ar lefel y brifysgol, ac mewn grwpiau academaidd eraill sy'n cefnogi gweithrediad y system reoli ansawdd academaidd. Yn nodedig, mae myfyrwyr hefyd yn cymryd rhan weithredol yn y broses AGF a'r Panel Sefydlog Partneriaid a Rhaglenni. Mae'r Brifysgol yn nodi bod y system cynrychiolaeth myfyrwyr academaidd yn system aeddfed sydd wedi'i hen sefydlu, a'i bod yn sicrhau y gall myfyrwyr gyfrannu drwy Banelau Myfyrwyr-Staff ar lefel yr ysgolion. Darperir hyfforddiant gan Undeb y Myfyrwyr, a chadarnhawyd hyn gan y myfyrwyr yn ystod yr adolygiad.

4.2 Nodweddion allweddol y dulliau o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academaidd

102 Mae'r Brifysgol yn nodi bod ganddi brosesau eglur a phenodol i danategu ei gwaith o osod a monitro safonau academaidd sydd wedi'u seilio ar egwyddorion allweddol o ddatganoliaeth a chymesuredd. Y prif fecanweithiau ar gyfer gosod a gweithredu safonau academaidd yw'r broses o gymeradwyo rhaglenni, y defnydd a wneir o'r system arholi allanol - gan gynnwys dulliau o gadarnhau bod pwyntiau cyfeirio allanol yn cael eu gweithredu - a'r broses o Adolygu a Gwella'n Flynyddol (AGF). Yn 2019 y cwblhawyd y gylchred adolygu gyfnodol ddiweddaraf, oedd yn cynnwys ail-ddilysu rhaglenni, a bydd proses newydd yn weithredol o flwyddyn academaidd 2020-21 ymlaen. Un o nodweddion arbennig dull y Brifysgol o reoli ansawdd yw cynhyrchiad yr Adroddiadau Ansawdd Blynyddol y mae'r Senedd a'r Cyngor wedi bod yn eu derbyn ers 2015. Mae hwn yn werthusiad systematig o'r risgiau sy'n ystyried y ffordd y rheolir y gweithgareddau sicrhau a gwella ansawdd, ac mae'n rhoi statws risg a naratif ar gyfer pob maes o weithgaredd ac yn pennu camau gweithredu i'w cymryd er mwyn gwella eu system reoli ansawdd academaidd yn barhaus ym mhob maes penodol.

103 Mae tri cham i'r broses o gymeradwyo rhaglenni. Y cam cyntaf yw'r lefel strategol a gyflawnir gan y coleg ar hyn o bryd, gyda ffocws ar strategaeth, hyfywedd y busnes, risgiau, nifer y myfyrwyr a materion eraill. Yr ail gam yw cymeradwyaeth academiaidd, sy'n cynnwys adroddiad gan 'gyfaill beirniadol' sy'n cefnogi'r ysgol a'r tîm datblygu wrth iddynt ddatblygu'r cynnig, ac adroddiad gan 'gynghorydd allanol' a gyflwynir ochr yn ochr â'r ddogfennaeth derfynol i'r Panel Sefydlog Partneriaid a Rhaglenni. Y trydydd cam yw cymeradwyaeth gan y Brifysgol, lle rhoddir ystyriaeth i argymhelliad y Panel Sefydlog gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd neu ei Gadeirydd. Fel y nodwyd yn Adran 4.1, holodd y tîm adolygu ynghylch y maint o fusnes yr oedd y Panel Sefydlog yn gyfrifol amdano a cheisiodd sicrwydd i gadarnhau bod penderfyniadau a wneir gan banel o aelodau sy'n cael eu newid yn rheolaidd yn gydradd â'i gilydd. Sicrhawyd y tîm gan gydweithwyr yn y Brifysgol ei fod yn ddigon cadarn a'i fod wedi cael ei groesawu fel newid positif i sicrhau mwy o gysondeb yn y prosesau gwneud penderfyniadau.

104 Cyfeiriodd yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer 2018-19 at 'Ddigwyddiad Gwella Cyflym' mewn perthynas â chymeradwyo rhaglenni er mwyn ymdrin â'r diffyg goruchwyliaeth strategol sefydliadol dros y broses o gymeradwyo rhaglenni. Cadarnhaodd y Brifysgol y bydd, yn dilyn cyfnod o ymgynghori, yn cyflwyno'r gofyniad bod angen i Gam 1 y Polisi Cymeradwyo Rhaglenni diwygiedig dderbyn cymeradwyaeth gan y Grŵp Strategaeth Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr. Ym marn y tîm adolygu, bydd ganddo'r potensial i wella'r broses o gymeradwyo rhaglenni unwaith y bydd hyn wedi'i weithredu.

105 Gwneir y gwaith blynyddol o fonitro drwy'r broses AGF a ddiwygiwyd yn ddiweddar. Mewn perthynas â sicrhau ansawdd, mae templed ar gyfer cynhyrchu adroddiadau sy'n gofyn i golegau gadarnhau cyfres o ddatganiadau sicrwydd. Canlyniadau'r broses AGF yw sicrhau bod gan ysgolion gynllun i ymdrin â materion arwyddocaol sydd angen eu blaenoriaethu, er mwyn tynnu sylw at faterion a allai effeithio ar y Brifysgol gyfan a/neu gyfrannu at y dull strategol o wella profiad y myfyrwyr. Fodd bynnag, roedd y tîm adolygu'n ei chael hi'n anodd cadarnhau bod hyn yn digwydd ar lefel sefydliadol, am nad yw'r adroddiad AGF nac Adroddiadau Ansawdd Blynyddol y Brifysgol a ddarparwyd i'r tîm yn cynnwys manylion i ddangos bod materion neu weithgareddau o'r fath wedi codi o'r ymarfer sy'n gofyn gweithrediad neu ledaeniad ehangach.

106 Y broses Adolygiad Cyfnodol yw'r un a ddefnyddiwyd gan yr ysgolion i wneud adolygiad eang o bob un o'u rhaglenni a'u darpariaeth, i werthuso eu cyfeiriad strategol ac i fyfyrwyr ar brofiad eu myfyrwyr. Ym mis Ionawr 2019, cwblhaodd y Brifysgol ei chylch pum mlynedd y cytunwyd arno ac, o ganlyniad, penderfynodd ddirymu'r broses am gyfnod o ddwy flynedd er mwyn gwerthuso ac adolygu'r dull, yn arbennig yng nghyd-destun y newidiadau i'r broses AGF. Ym mis Hydref 2019, cytunodd y Brifysgol y byddai'r broses Adolygiad Cyfnodol yn cael ei disodli gan gylch o ail-ddilysu rhaglenni a fydd yn weithredol o flwyddyn academiaidd 2020-21 ymlaen. Cadarnhaodd y Brifysgol y byddai, yn y cyfamser, yn ail-ddilysu ei rhaglenni drwy gyfrwng y broses newidiadau mawr.

107 Mae'r Brifysgol yn disgrifio'r system arholi allanol fel mecanwaith allweddol yn y dull o adolygu a chynnal safonau academiaidd. Mae tystiolaeth o hyn i'w gweld yn y Polisi Arholi Allanol (darpariaeth a addysgir) a'r Llawlyfr i Arholwyr Allanol. Y brif ffordd y mae arholwyr allanol yn rhoi sicrwydd o ansawdd a safonau'r ddarpariaeth ymchwil a'r ddarpariaeth a addysgir yw drwy gyflwyno adroddiadau ysgrifenedig blynyddol. Yn eu hadroddiadau, gofynnir i arholwyr allanol roi sylwadau ar amrywiaeth o feysydd. Cyhoeddir eu hadroddiadau ynghyd ag ymateb y sefydliad i bob un ohonynt, wedi'u llofnodi gan y Cofrestrwydd Academiaidd, ar wefan y Brifysgol. Os nad oes unrhyw broblemau penodol wedi'u nodi, nid yw'r Gofrestrfa yn gofyn i'r ysgol roi ymateb. Mae tystiolaeth i ddangos bod ysgolion wedi derbyn cais i ddarparu ymateb pan mae problemau wedi'u nodi.

108 Mae'r Brifysgol yn nodi bod gofyn i bob ysgol ystyried adroddiadau'r arholwyr allanol drwy'r broses AGF, yn arbennig os nad oedd hi'n bosibl cymryd camau gweithredu ar unwaith

mewn ymateb i fater a godwyd gan yr arholwr allanol. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth a ddarparwyd i'r tîm adolygu (yn cynnwys adroddiadau AGF yr ysgolion, cofnodion Byrddau Astudiaethau, Cynlluniau Gwella Profiad Myfyrwyr, a chofnodion Byrddau'r Ysgolion a Byrddau'r Colegau) yn dangos ychydig iawn o gyfeiriadau at adroddiadau'r arholwyr allanol neu, yn y mwyafrif o achosion, ddim cyfeiriadau o gwbl.

109 Ar lefel y sefydliad, mae'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol yn cynnwys adran ar adroddiadau arholwyr allanol am ddarpariaeth ymchwil a darpariaeth a addysgir; ond, nid yw'n cynnwys gwybodaeth am unrhyw faterion a godir sydd efallai'n gofyn ymyriad ar lefel sefydliadol, neu unrhyw arferion da a allai gael eu lledaenu er mwyn gwella ansawdd. Nid yw cofnodion y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a ddarparwyd i'r tîm adolygu, y cyflwynir yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol iddo, yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau eraill at adroddiadau arholwyr allanol. Er bod y Gofrestrfa'n adolygu pob un o adroddiadau'r arholwyr allanol, cadarnhaodd y Brifysgol yn ystod yr ymweliad adolygu na chynhyrchir crynodeb o faterion a godir heblaw hwnnw a gyflwynir yn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol. Felly, roedd y tîm adolygu'n ei chael hi'n anodd cadarnhau bod adroddiadau arholwyr allanol yn cael eu hystyried yn y ffyrdd sydd wedi'u disgrifio gan y Brifysgol, ar lefelau'r ysgolion, y colegau neu'r brifysgol.

110 Nodwyd yng Nghyflwyniad Ysgrifenedig y Myfyrwyr bod y Fframwaith Materion Asesu, oedd yn ceisio sefydlu meini prawf asesu safonol a generig, wedi dod yn weithredol yn dilyn yr adolygiad gan QAA yn 2014, ond bod materion asesu a rhoi adborth yn thema sy'n codi dro ar ôl tro a bod yr wybodaeth ddiweddaraf o'r ACF yn dangos bod perfformiad y Brifysgol yn y maes hwn yn is na'r meincnod ar gyfer y sector ac i Gymru gyfan, er nad yw'n is na meincnod y Grŵp Russell. Mynegwyd y farn hon hefyd gan y myfyrwyr hynny y cyfarfu'r tîm arolygu â nhw yn ystod yr Ymweliad Adolygu, ac roedd y Brifysgol ei hun yn cydnabod bod myfyrwyr yn parhau'n anfodlon gyda'u profiadau mewn perthynas â materion asesu. Sefydlwyd prosiect partneriaeth dan arweiniad y myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-20 rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i greu Tasglu Asesu / Grŵp Llywio Asesu a Rhoi Adborth, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr y Ganolfan Arloesedd a Chefnogaeth Addysg. Mae ei aelodaeth yn cynnwys arweinwyr asesu ac adborth o bob coleg, a chynrychiolwyr yr ysgolion. Mae'r Grŵp yn bwriadu gostwng y nifer o asesiadau crynodol a lleihau'r amrywiad sylweddol yn y llwyth gwaith asesu sydd gan y staff a'r myfyrwyr, ac mae'n ceisio sefydlu Polisi Asesu cymeradwy. Nodwyd mewn papur a dderbyniwyd gan y Senedd ym mis Chwefror 2020 bod cyfanswm nifer cyfartalog yr asesiadau crynodol fesul rhaglen israddedig yn y Brifysgol yn amrywio o fwy na 120 i lai nag 20. Mae data ar gyfer y sector yn dangos mai oddeutu 50 o asesiadau crynodol yw'r nifer arferol i bob rhaglen israddedig. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod cyflwyniad y papur sefyllfa hwn i'r Senedd yn gam cadarnhaol wrth geisio sefydlu goruchwyliaeth sefydliadol ac wrth geisio sicrhau bod y llwythi gwaith asesu'n gyson a phriodol.

4.3 Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol mewn prosesau ansawdd

111 Mae rheoliadau academaidd, polisiâu a rheoliadau'r Brifysgol wedi'u mapio yn erbyn Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd) ac, yn ei dro, yn erbyn Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd, fel y gwelwyd yn yr ymarfer mapio a wnaed yn erbyn y ddwy ddogfen. Mae polisiâu sicrhau ansawdd y Brifysgol hefyd yn cyfeirio'n benodol at y Cod Ansawdd. Mae Polisi Cymeradwyo Rhaglenni'r Brifysgol a'i Hegwyddorion ar gyfer Strwythuro, Cynllunio a Darparu Rhaglenni'n cyfeirio'n benodol at y Cod Ansawdd, ac at gyngor ac arweiniad perthnasol am themâu cysylltiedig. Mae cyfeiriadau at y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch gan Gyrrff Dyfarnu Graddau'r DU (FHEQ) a chyrrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio yn rhai o gofnodion y Panel Sefydlog Partneriaid a Rhaglenni. Mae templed yr adroddiad 'cyfaill beirniadol' yn gofyn yn benodol am wybodaeth ynglŷn ag aliniad gyda'r FHEQ a'r Datganiad Meincnodi Pwnc fel pwyntiau cyfeirio allanol, ond mae hi werth nodi nad yw'r adroddiadau eu hunain yn fanwl.

112 Fel y nodwyd yn Adran 4.2, mae allanoldeb mewn prosesau, yn arbennig mewn perthynas â chymeradwyo rhaglenni ac adroddiadau arholwyr allanol.

4.4 Sylwadau ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad blaenorol a phennu materion sy'n codi o'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw nad ydynt yn cael eu harchwilio fel arall

113 Derbyniodd y Brifysgol feirniadaethau o 'hyder' yn ei hadolygiad blaenorol gan QAA yn 2014. Rhoddwyd tri argymhelliad ac un cadarnhad yn yr adroddiad adolygu. Roedd yr argymhelliad cyntaf yn ymwneud â chynlluniau mewn un o'r rhaglenni i wneud defnydd o fodiwlau ar lefelau 5, 6 a 7 yn y blynyddoedd astudio sy'n cyfateb fel arfer â lefelau academaidd 4, 5 a 6. Cafodd hyn ei fonitro drwy'r broses adolygu flynyddol, ac ni welwyd unrhyw ganlyniadau niweidiol neu ganlyniadau nas bwriadwyd. Felly, nid oedd angen unrhyw ymyriad. Roedd yr ail argymhelliad yn ymwneud â gwallau oedd wedi digwydd wrth gynhyrchu canlyniadau i fyfyrwyr meddygol oedd yn eu blwyddyn derfynol. Gofynnwyd i'r Brifysgol fonitro'r broses o gyflwyno system newydd ar gyfer cofnodi ac adrodd canlyniadau er mwyn sicrhau na fyddai gwallau'n digwydd eto. Cafodd hyn ei gyflawni. Roedd y trydydd argymhelliad yn gofyn bod y Brifysgol yn sicrhau gweithrediad cynhwysfawr y Fframwaith Materion Asesu ar draws y ddarpariaeth i gyd o ddechrau blwyddyn academaidd 2015-16. Cafodd y Fframwaith Materion Asesu, oedd yn cynnwys cyflwyno nifer gyfyngedig o ddulliau cyson o ddsbarthu graddau, ei weithredu'n llwyddiannus. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd, ac yna i'r Senedd.

114 Roedd y cadarnhad yn cefnogi penderfyniad y Brifysgol i gynhyrchu adolygiad blynyddol o welliant o 2014-15 ymlaen. Cafodd hyn ei gwblhau ac, yn dilyn hynny, cafodd adroddiad a gynhyrchwyd am welliant ei gynnwys yn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol.

4.5 Y dull o ddefnyddio data i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso

115 Roedd y defnydd a wnaed o ddata meintiol ac ansoddol i danategu a hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau o fewn y prosesau sicrhau ansawdd yn faes o arfer da yn yr Adolygiad Sefydliadol o'r Brifysgol a weithredwyd gan QAA yn 2014. Ers yr adolygiad hwnnw, mae'r Brifysgol wedi bod wrthi'n raddol yn datblygu data a gynhyrchir yn ganolog i gefnogi prosesau ansawdd. Yn 2017, comisiynodd y Brifysgol adolygiad cyflym o brofiad y myfyrwyr, gan gynnwys data i gefnogi dysgu, addysgu a phrofiad y myfyrwyr. Gwnaeth yr adolygiad cyflym hwn hefyd nifer o argymhellion ynghylch y ffordd y mae'r Brifysgol yn defnyddio data i gefnogi gwella addysg. Mae'r Brifysgol wedi ymateb drwy gyflwyno prosiect Gwasanaethau Data i sefydlu dull gwasanaeth y cytunwyd arno i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau dadansoddi data sydd ar gael ar draws y brifysgol er mwyn darparu gwybodaeth rheoli a gwybodaeth busnes mewn da bryd sy'n ddibynadwy ac yn ddefnyddiol i randdeiliaid. Yn ystod yr ymweliad adolygu, cyfarfu'r tîm adolygu â chynrychiolwyr o'r Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu a gyfeiriodd at Rwydwaith Arbenigwyr Data Caerdydd fel un o'r ffactorau allweddol sy'n hwyluso darpariad cyfres ddata safonol a chynhwysfawr i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau'r Brifysgol ar bob lefel. Roedd cynrychiolwyr o feysydd eraill y gwasanaethau academaidd a phroffesiynol yn cytuno gyda'r farn bod y Brifysgol yn symud yn ei blaen yn fwy cadarnhaol tuag at ddarparu data perthnasol mewn da bryd, o lefel y rhaglenni hyd lefel y brifysgol.

116 Mae'r Brifysgol hefyd wedi cyflwyno dull newydd, y Fframwaith Rheoli Arolygon, sydd wedi'i integreiddio yn y broses AGF ac sy'n cael ei gyflwyno i roi mwy o sicrwydd am y ffordd y mae camau gweithredu mewn ymateb i ganlyniadau arolygon yn cael eu rheoli. Mae'n darparu un gylchred glir ar gyfer cynllunio camau gweithredu i wella profiad y myfyrwyr, sy'n cynnwys Cynllun Gwella Profiad Myfyrwyr sydd wedi'i alinio â'r cylch AGF. Mae ei nodweddion arbennig yn cynnwys: darparu data mewn da bryd gyda ffocws ar berfformiad yn erbyn meincnodau'r sector, cynnal trafodaethau strwythuredig gyda'r ysgolion i ganolbwyntio ar berfformiad a meysydd

sydd efallai angen eu gwella, a dull o gynllunio a monitro camau gweithredu sy'n gyson ar draws y brifysgol gyfan. Mae'r Brifysgol yn nodi bod y Fframwaith yn defnyddio data sy'n mynegi llais y myfyrwyr, gan gynnwys canlyniadau'r ACF, a chyhoeddir y data drwy'r system gwybodaeth busnes. Roedd cydweithwyr yn y Brifysgol yn bositif ynglŷn â chyflwyniad y Fframwaith a'i gyfuniad â'r broses AGF.

117 Yn fwy cyffredinol, cafodd y broses AGF ei datblygu o amgylch portffolio o ddata mewnol ac allanol, a ddisgrifir fel meysydd i ganolbwyntio arnynt, sy'n ymwneud â: boddhad y myfyrwyr (o ganlyniadau arolygon), data am dderbyniadau a data marchnata mewn perthynas â datblygiad portffolio; canlyniadau rhaglenni, a gwerthusiadau modiwlau. Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd i'r tîm adolygu'n ymwneud â'r flwyddyn 2018 am fod y broses ddiwygiedig wedi cychwyn ym mis Medi 2019. Felly, mae hi'n rhy fuan i allu cadarnhau bod hyn yn digwydd a gwerthuso effaith y diwygiadau. Fodd bynnag, roedd cydweithwyr yn y Brifysgol yn bositif ynglŷn â'r newidiadau a gyflwynwyd i'r broses AGF, ac yn nodi bod data ar gael yn fwy prydlon a rheolaidd erbyn hyn sy'n caniatáu iddynt fyfyrwyr ar y data wrth fynd ymlaen yn hytrach na myfyrwyr arno'n flynyddol. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r camau a gymerir gan y Brifysgol i weithredu proses fonitro flynyddol ddiwygiedig sy'n galluogi i'r dull o adolygu a gwella profiad y myfyrwyr fod yn fwy ymatebol.

118 Yn y broses o gymeradwyo rhaglenni, mae'n rhaid i bob ysgol ddefnyddio data mewnol ac allanol am faterion megis hyfywedd y busnes (incwm o ffioedd addysgu a chostau), gwybodaeth am y farchnad, dadansoddiad o'r sector a dadansoddiad o'r risgiau, i benderfynu'n strategol a ddylid bwrw ymlaen ai peidio. Wrth wneud newidiadau i raglenni cyfredol, gofynnir i bob ysgol ystyried ystod o ddata arolygon yn eu proses o wneud penderfyniadau, megis gwerthusiadau modiwlau ac adborth gan Banelau Myfyrwyr-Staff. Er gwaethaf hynny, mae'r Brifysgol wrthi'n ystyried addasiadau i'r broses o gymeradwyo rhaglenni ac mae'r polisi cyfredol yn cadarnhau hynny. Mae tystiolaeth hefyd yn nogfennau'r Panel Sefydlog Partneriaid a Rhaglenni sy'n dangos bod y myfyrwyr yn cael cyfle i roi eu barn mewn amrywiol ffyrdd, ond nid ymhob achos.

4.6 Effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r dulliau sicrhau ansawdd i wella'r dysgu a'r addysgu

119 Mae gan y Brifysgol brosesau systematig o fonitro sut y defnyddir dulliau o reoli ansawdd i wella'r dysgu a'r addysgu. Mae'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol yn ystyried pob elfen o'r system reoli ansawdd academaidd (megis gweithgareddau sicrhau a gwella ansawdd, ac asesu a derbyn myfyrwyr) ac yn cadarnhau bod yr holl brosesau a rheoliadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Defnyddir yr adroddiad hwnnw hefyd i sicrhau bod gweithgareddau gwella'n ymateb i adborth a gofynion allanol drwy roi camau ar waith i ymdrin ag unrhyw wendidau yn y gweithgareddau.

120 Mae'r broses AGF yn darparu strwythur graddedig ar gyfer adolygu'r gwaith dysgu ac addysgu a phennu'r camau gweithredu sy'n ofynnol i wella profiad y myfyrwyr. Cesglir yr adroddiadau AGF ar lefelau'r rhaglenni a'r ysgolion at ei gilydd yng nghyflwyniad y coleg sy'n cael ei adolygu gan Ddeoniaid Astudiaethau Israddedig ac Ôl-raddedig y colegau, Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu'r Ysgolion, cynrychiolwyr y myfyrwyr a'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd. Mae'r broses AGF wedi'i gwella i ddarparu mewnbyn systematig, parhaus a mwy amserol i mewn i'r mentrau gwella. Ym marn y tîm adolygu, pan fydd y broses AGF ddiwygiedig wedi'i hymwreiddio'n llawn bydd yn cael effaith bositif ar welliant mewn dysgu ac addysgu ym mhob maes astudio.

121 Cefnogir gwelliant hefyd drwy system gynrychiolaeth y myfyrwyr sy'n darparu mewnbyn i'r system reoli ansawdd ar bob lefel. Yn ôl rhai o'r myfyrwyr, pan weithredir yn effeithiol i wella profiad y myfyrwyr dylai'r Brifysgol gydweithio'n agosach ag Undeb y Myfyrwyr i roi gwybod am y canlyniadau.

4.7 Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd

122 Mae adran 4.2 yn crynhoi'r rheoliadau a'r gweithdrefnau y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio i osod a chynnal safonau ei dyfarniadau. Mae elfennau craidd o'i phrosesau o reoli safonau wedi'u halinio â phwyntiau cyfeirio allanol, allanoldeb mewn mecanweithiau allweddol i sicrhau ansawdd, a'r broses flynyddol o adolygu a gwella. Mae'r Brifysgol yn adolygu'n rheolaidd y ffordd y mae'n mapio ei gweithdrefnau ei hun yn erbyn pwyntiau cyfeirio allanol perthnasol, ac mae ganddi Amserlen Adolygu Polisiâu o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd i sicrhau bod ei pholisïau mewn perthynas â safonau academaidd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a'u cynnal.

123 Er ei bod hi'n anodd canfod y strwythurau a ddefnyddir i gynnal trafodaethau am faterion megis safonau academaidd, dysgu ac addysgu, a phrofiad y myfyrwyr, ni chanfu'r tîm adolygu unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod unrhyw risgiau i safonau academaidd o ganlyniad i hynny. Croesawodd y tîm bapur sefyllfa'r Brifysgol yn ymwneud â datblygu polisi asesu a fyddai'n arwain yn eu barn hwy at fwy o oruchwyliaeth ar lefel sefydliadol a mwy o gysondeb yn yr arferion ar draws y Brifysgol. Felly, daeth y tîm i'r casgliad bod y ffordd y rheolir y safonau academaidd, y mae'r Brifysgol yn eu gosod a'u cynnal ar gyfer cyrhaeddiad myfyrwyr, yn gadarn.

4.8 Effeithiolrwydd dull y darparwr o'i werthuso ei hun, sy'n cynnwys defnyddio data'n effeithiol i hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau

124 Mae adrannau 4.1 a 4.5 yn crynhoi'r dulliau y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio i fonitro ac adolygu ansawdd ei darpariaeth ac maent yn rhoi enghreifftiau o'r defnydd a wneir o ddata ar lefel strategol a gweithredol. Mae'r Brifysgol wedi cymryd camau cadarnhaol i ymateb i ganfyddiadau adolygiad a gomisiynwyd ganddi yn 2017 oedd yn cynnwys argymhellion yn ymwneud â defnyddio data i gefnogi dysgu, addysgu a phrofiad y myfyrwyr. Mae'r Fframwaith Rheoli Arolygon wedi cryfhau'r dull o ddefnyddio data arolygon ac mae tystiolaeth i ddangos ei fod yn cael ei ddefnyddio yn y Cynlluniau Gwella Profiad Myfyrwyr, ac yn y broses well o Adolygu a Gwella'n Flynyddol (AGF). Cyfeiriodd y Brifysgol at Rwydwaith Arbenigwyr Data Caerdydd fel un o'r ffactorau allweddol sy'n hwyluso darpariad cyfres ddata safonol. Roedd staff y Brifysgol yn croesawu amseroldeb hwn ond yn nodi bod angen ei wella ymhellach er mwyn ei fireinio.

125 Un o nodweddion allweddol dull y Brifysgol o'i gwerthuso ei hun yw'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol sy'n cymharu statws risg nifer o feysydd allweddol mewn perthynas â safonau, ansawdd a phrofiad y myfyrwyr. Mae penderfyniadau am y statws risg wedi'u seilio ar ddata ac mae'r gwerthusiad o'r ffordd mae'r risg wedi newid o flwyddyn i flwyddyn yn helpu'r Brifysgol i werthuso pa mor effeithiol yw ei dull o'i gwerthuso ei hun. Hefyd, rhoddodd y Brifysgol dystiolaeth o'r hyn y maen nhw'n ei ddisgrifio'n 'Ddigwyddiadau Gwella Cyflym', sy'n ymwneud â sicrhau bod y broses o gymeradwyo rhaglenni'n alinio â'r strategaethau ac yn cael eu blaenoriaethu; ac ar gyfer drafftio a chynhyrchu papurau arholiad i ymdrin â gwallau, a sefydlu proses sy'n fwy effeithlon ac effeithiol. Roedd y tîm o'r farn bod eu defnydd o ddull fel hyn i wneud adolygiad manwl o faes a ystyrir yn un risg uchel yn weithred bositif.

126 Roedd tystiolaeth hefyd i ddangos eu bod yn defnyddio arbenigedd allanol o ganlyniad i waith hunanwerthuso, er enghraifft, drwy ymgysylltu ag ymgynghorydd pan ganfuwyd materion risg uchel yn ymwneud ag arholiadau ac apeliadau a thrwy ddefnyddio proses archwilio fewnol lle canfuwyd risgiau yn ymwneud ag apeliadau a chwynion gan fyfyrwyr.

127 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn cymryd camau cadarnhaol tuag at wneud defnydd da o ddata meintiol ac ansoddol fel ei gilydd i helpu prosesau hunanwerthuso ac i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau. Hyd yn hyn, mae hi'n rhy fuan i wneud gwerthusiad llawn o effaith y newidiadau diweddar yn y maes yma.

5 Darpariaeth gydweithredol

5.1 Nodweddion allweddol dull strategol y darparwr (yn cynnwys gweithgareddau cydweithredol, dysgu ar-lein a dysgu o bell a ddarperir gydag eraill, a dysgu seiliedig ar waith)

128 Ar adeg yr ymweliad adolygu, roedd gan Brifysgol Caerdydd 10 o drefniadau cydweithredol ar ei Chofrestr Darpariaeth Gydweithredol i ddarparu wyth rhaglen a addysgir a dwy raglen ymchwil i oddeutu 270 o fyfyrwyr mewn partneriaeth â sefydliadau addysg yn y DU a thramor. Yn y Dadansoddiad Hunanwerthuso ac hefyd mewn cyfarfodydd gyda'r tîm adolygu, roedd y Brifysgol wedi dangos nad oedd datblygu partneriaethau gan ddefnyddio ei phwerau dyfarnu graddau i etholfreinio neu ddilysu rhaglenni a ddarperir gan eraill wedi bod yn un o'i blaenoriaethau strategol ers yr Adolygiad Sefydliadol diwethaf yn 2014. Yn hytrach, mae strategaeth sefydliadol y Brifysgol *Y Ffordd Ymlaen 2018-2023*, gan gynnwys ei his-strategaeth ryngwladol, yn blaenoriaethu datblygiad partneriaethau sydd â ffocws ar ymchwil gyda sefydliadau academiaidd mwyaf blaenllaw'r byd er mwyn ehangu cyfleoedd i'r staff a'r myfyrwyr adeiladu cysylltiadau byd-eang drwy raglenni cyfnewid rhyngwladol a chydweithrediadau rhyngwladol. Yn ogystal, mae'r Is-strategaeth Addysg a Myfyrwyr yn annog y Brifysgol i sefydlu cytundebau gyda chyflogwyr a sefydliadau eraill sy'n galluogi i'w myfyrwyr ymgymryd â lleoliadau gwaith a lleoliadau astudio yn y DU a thramor. Mae strategaeth y Brifysgol wedi gosod targedau i sicrhau bod 50% o'i myfyrwyr israddedig yn ymgymryd â lleoliad gwaith yn ystod eu hastudiaethau, a bod 30% o'i myfyrwyr israddedig yn treulio cyfanswm o dair wythnos o leiaf dramor.

5.2 Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol ac unrhyw gynlluniau i'w newid

129 Ers ei hadolygiad diwethaf yn 2014, mae'r Brifysgol wedi datblygu pum partneriaeth gydweithredol ryngwladol gyda'r partneriaid canlynol: Prifysgol KU Leuven, Prifysgol Xiamen, Prifysgol Normal Beijing, Prifysgol Campinas a Phrifysgol Bremen. Yn bennaf, mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi gweithgareddau ymchwil cydweithredol ac yn darparu cyfleoedd symudedd rhyngwladol i staff y Brifysgol a'i myfyrwyr doethuriaeth. Mae'r bartneriaeth gyda Phrifysgol Normal Beijing yn cynnwys rhaglen BA sy'n ffynnu mewn Tsieinëeg Fodern lle mae myfyrwyr o'r DU yn treulio dwy flynedd ymhob sefydliad sy'n arwain at ddyfarnu gradd ddeuol. Roedd y pum partneriaeth addysgu yn y DU yn cynnwys rhaglenni mewn diwinyddiaeth i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig sydd wedi'u sefydlu'n dda, a rhaglen MBBCh hyfforddiant meddygol i raddedigion a ddarperir ar y cyd â Phrifysgol Bangor. Roedd dwy bartneriaeth ryngwladol a dwy bartneriaeth yn y DU ym mlwyddyn derfynol eu darpariaeth ac roeddent wedi gwneud trefniadau 'addysgu allan' i gefnogi'r carfannau o fyfyrwyr oedd yn weddill.

130 Yn y Deyrnas Unedig, mae gweithgareddau cydweithredol y Brifysgol yn cynnwys cysylltiadau â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, a phartneriaeth gyda Llywodraeth Cymru ac arweinwyr o'r byd diwydiant ar safle'r Academi Meddalwedd Genedlaethol yng Nghasnewydd. Lluniwyd y berthynas gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i wella gwaith ymchwil seiliedig ar ddata yn Ne-ddwyrain Cymru a rhagwelir y bydd hon yn arwain at ddatblygiad rhaglenni gradd meistr a PhD newydd. Mae'r Academi Meddalwedd Genedlaethol yn darparu prentisiaeth gradd gyntaf y Brifysgol. Mae'r partneriaethau hyn wedi'u halinio â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Yn fwy diweddar, mae'r Brifysgol wedi mynd i gytundeb partneriaeth â'r darparwr preifat Study Group a fydd yn gweithredu Canolfan Astudio Rhyngwladol newydd ar gampws Caerdydd ac yn darparu rhaglenni blwyddyn sylfaen a rhaglenni cyn y radd meistr fel llwybrau i fynd i brifysgolion yn y DU, gan gynnwys Caerdydd. Ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol am safonau ac ansawdd darpariaeth Study Group ond bydd yn dod i gytundebau ag o'i ddarparu llwybrau i'w fyfyrwyr symud ymlaen at ei rhaglenni gradd hithau.

131 Mae'r Brifysgol yn rhoi pwyslais arbennig ar baratoi ei myfyrwyr ar gyfer byd gwaith neu astudiaeth bellach. Roedd data am gyrchfannau'r graddedigion a ddarparwyd i'r tîm yn dangos bod y gyfran o fyfyrwyr y Brifysgol sy'n mynd ymlaen i gael swyddi i raddedigion a swyddi â chyflog uchel yn dda o'i gymharu â'r sector, ac mae'r canlyniadau positif hyn yn cynnwys myfyrwyr sy'n cael eu derbyn o ardaloedd o gyfranogaeth isel a'r rheiny sydd wedi datgan anableddau. Mae'r gyfran o'i myfyrwyr sy'n gwneud lleoliadau gwaith neu sy'n cymryd cyfleoedd â chredydau i ddysgu yn y gweithle ac astudio dramor wedi bod yn cynyddu. Er enghraifft, ym mlwyddyn academiaidd 2018-19, roedd 43% o'r myfyrwyr israddedig oedd yn graddio wedi gwneud lleoliadau gwaith cymwystrol, ac roedd 367 o'r myfyrwyr israddedig wedi cymryd rhan mewn lleoliadau gwaith rhyngwladol ar draws 35 o wledydd, a drefnwyd gan y Tîm Cyfleoedd Byd-eang sy'n gyfrifol am weithredu Polisi Astudio Dramor y Brifysgol. Roedd cyfarfodydd y tîm gyda'r staff a'r myfyrwyr, yn ogystal ag adroddiadau blynyddol am lleoliadau gwaith a gweithgareddau astudio dramor, yn dangos bod y lleoliadau gwaith a'r ymweliadau tramor wedi'u trefnu a'u cefnogi'n dda, ac maent i'w gweld yn fuddiol iawn. Cyfarfu'r tîm adolygu hefyd â grŵp o gyflogwyr lleol a chenedlaethol sy'n cymryd rhan mewn partneriaethau gyda'r Brifysgol i ddarparu lleoliadau gwaith ac interniaethau. Bu'r cyflogwyr hyn yn siarad yn gadarnhaol iawn am safon y myfyrwyr, a'r gefnogaeth a roddwyd gan y Brifysgol.

5.3 Effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academiaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

132 Mae gan y Brifysgol bolisiâu a rheoliadau cynhwysfawr ar gyfer rheoli safonau ac ansawdd rhaglenni a ddarperir ar y cyd â phartneriaid. Mae'r cyfrifoldeb am y ddarpariaeth gydweithredol ar ysgwyddau'r Senedd, sy'n dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd. Gwneir y gwaith manwl o ystyried a monitro partneriaethau gan un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd, y Panel Sefydlog Partneriaid a Rhaglenni, a sefydlwyd yn 2017 i sicrhau bod cynigion ar gyfer partneriaethau cydweithredol ac unrhyw rhaglenni cysylltiedig yn derbyn ystyriaeth ar y cyd. Mae'r Panel Sefydlog yn goruchwyllo'r holl weithgareddau cydweithredol er mwyn sicrhau bod partneriaethau'n derbyn ystyriaeth ar lefel academiaidd a lefel strategol ar yr un pryd. Mae hyn yn cynnwys trefniadau astudio dramor a dysgu yn y gweithle, ochr yn ochr â rhoi cymeradwyaeth academiaidd i raglenni newydd, a newidiadau mawr i raglenni sy'n bodoli'n barod. Mae'r Polisi Darpariaeth Gydweithredol yn arwain y prosesau o gynllunio, cymeradwyo a diweddarau rhaglenni, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan bartneriaid, a'r broses barhaus o reoli ansawdd rhaglenni a gweithgareddau sy'n cynnwys darpariaeth gydweithredol. Mae'r Polisi Dysgu ar Leoliad a'r Polisi Astudio Dramor yn cynnwys canllawiau manwl ar gyfer datblygu a rheoli lleoliadau gwaith a darpariaeth astudio dramor. Maent yn berthnasol i bob rhaglen gradd a addysgir a phob rhaglen gradd ymchwil a ddarperir mewn cydweithrediad â chyflogwyr a/neu sefydliadau eraill yng Nghymru, yng ngweddill y DU neu dramor. Mae'r polisiâu hyn yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a'u mapio'n benodol yn erbyn y Cod Ansawdd a chanllawiau perthnasol eraill.

133 Cyfarfu'r tîm adolygu â thiworiaid cyswllt sy'n gyfrifol am y cydweithrediad rheolaidd rhwng ysgolion academiaidd a rhaglenni a ddarperir gan bartneriaid, a chyfarfu hefyd â detholiad o safonwyr oedd wedi darparu adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd (drwy'r Panel Sefydlog Partneriaid a Rhaglenni) ar ansawdd a safonau darpariaeth y partneriaid. Adolygodd y tîm hefyd adroddiadau diweddar ar ddarpariaeth gydweithredol gan arholwyr allanol. Roedd hi'n amlwg o'r ffynonellau hyn bod ansawdd a safonau'r rhaglenni a ddarperir gan bartneriaid wedi'u rheoli'n dda.

134 Roedd y tîm adolygu'n pryderu ar y cychwyn ynglŷn â nifer y materion a maint y dogfennau perthnasol oedd yn derbyn ystyriaeth gan y Panel Sefydlog yn ei gyfarfodydd misol. Mae'r panel yn defnyddio system o newid ei aelodau, ei gadeirydd, a'i staff gweinyddu'n

rheolaidd, ac mae'n ystyried ystod eang o faterion sy'n cynnwys: pob achos o gymeradwyo rhaglenni, newidiadau i unrhyw gymeradwyaeth o'r fath, adroddiadau blynyddol gan safonwyr, adroddiadau perthnasol gan arholwyr allanol, adolygiadau cyfnodol o gydweithrediadau gan gynnwys y rheini sy'n cynnwys trefniadau 'addysgu allan', a'r holl leoliadau gwaith a chytundebau astudio dramor a'u hadroddiadau cysylltiedig. Gwelwyd bod dogfennau agenda cyfarfodydd y Panel Sefydlog yn gallu cynnwys cymaint â nifer o gannoedd o dudalennau. Trafodwyd y pryderon hyn yn fanwl mewn cyfarfod gyda chadeiryddion ac aelodau eraill o'r Panel Sefydlog. Er eu bod hwythau'n cytuno bod cwmpas a maint y materion yn ymwneud â safonau ac ansawdd oedd yn derbyn ystyriaeth gan y panel yn sylweddol iawn, ac y gallai ei gyfarfodydd fod yn hir a manwl, gallent sicrhau'r tîm adolygu eu bod yn cynnal goruchwyliaeth drwyadl. Roeddent yn gwneud hynny'n rhannol drwy waith paratoi manwl ar gyfer cyfarfodydd y panel, a byddai'r gwaith hwnnw'n cael ei gyflawni ar y cyd gan y cadeiryddion perthnasol a staff o'r gwasanaethau proffesiynol. Fodd bynnag, mae'r tîm o'r farn ei bod hi'n bwysig i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd barhau i fonitro ac adolygu maint y swyddogaethau sydd gan y Panel Sefydlog.

QAA2540 - R10476 - May 20

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2020
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk